



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG51113

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Rhan 1: Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach

Ymgynghoriad ar reoliadau drafft a dull gorfodi Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 20XX

Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'n hymgyngoriad ar reoliadau drafft a dull gorfodi Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru) 20XX. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfateb i ran 1 y [cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach](#), a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf 2024. Hefyd, cynhwysir ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a manylion am y camau nesaf ar gyfer y Rheoliadau arfaethedig.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Penderfynyddion Iechyd Ehangach

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: PwysaulachCymrulach@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: [Proposals to make the food environment healthier | GOV.WALES](#)

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir cael gafael arnynt ar wefan Llywodraeth Cymru.

ISBN: 978-1-83715-036-6

Cynnwys

Rhagymadrodd.....	4
Methodoleg	5
Strwythur yr adroddiad	6
Canfyddiadau allwedol	6
Crynodeb o'r ymatebion	8
Cwestiwn 1.....	8
Cwestiwn 2.....	11
Cwestiwn 3.....	13
Cwestiwn 4.....	16
Cwestiwn 5.....	18
Cwestiwn 6.....	20
Cwestiwn 7.....	22
Cwestiwn 8.....	24
Cwestiwn 9.....	26
Cwestiwn 10.....	28
Cwestiwn 11.....	30
Cwestiwn 12.....	32
Cwestiwn 13.....	33
Cwestiwn 14.....	36
Cwestiwn 15.....	37
Cwestiwn 16.....	40
Cwestiwn 17.....	43
Cwestiwn 18.....	45
Cwestiwn 19.....	47
Ymatebion Llywodraeth Cymru	49
Camau Nesaf	51



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwyniad

Ar 1 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef Prif Weinidog Cymru erbyn hyn, ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â rheoliadau drafft a dull gorfodi'r Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru).

Gellir dod o hyd i destun llawn yr ymgynghoriad ar:

[Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r rheoliadau arfaethedig yn cyfyngu ar strategaethau marchnata a hyrwyddo a all annog pobl i orfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr sy'n cyfrannu at lefelau gorbwysau a gordewdra ymhlith plant. Y nod yw sicrhau mai'r dewis iach fydd y dewis hawsaf i ddefnyddwyr Cymru trwy wneud y canlynol:

- Cyfyngu ar hyrwyddiadau pris ar sail swmp o gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr sy'n gallu annog pobl i orfwyta. Mae hyn yn cynnwys cynigion amleitem (er enghraifft prynu un eitem a chael un arall am ddim) a chyfleoedd i ail-lenwi diodydd meddal llawn siwgr am ddim.
- Cyfyngu ar leoli cynhyrchion bwyd a diod â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr mewn lleoliadau gwerthu allweddol, sy'n cynnwys wrth fynedfeydd siopau, wrth y desgiau talu ac ar ben yr eiliau. Gall hyn arwain at bŵer plagio a phrynu cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr ar fypwy.

Ymgynghorwyd yn flaenorol ynghylch yr holl gyfyngiadau arfaethedig a gynhwysir yn y rheoliadau drafft fel rhan o ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach Llywodraeth Cymru (2022). Yn yr ymgynghoriad hwnnw, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r mwyafrif o'r cyfyngiadau. Mae'r cynigion hyn, i raddau helaeth, yn adlewyrchu'r rhai a gynhwysir yn y rheoliadau presennol cyfatebol yn Lloegr.

Gellir dod o hyd i destun llawn yr ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach (2022) ar:

[Amgylchedd bwyd iach | LLYW.CYMRU](#)

Methodoleg

Derbyniwyd cyfanswm o **84** o ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf 2024. Roedd y ffurflenni ymateb ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bu modd i unigolion ymateb yn eu dewis iaith. Dyma'r nifer a ymatebodd yn y ddwy iaith:

laith	Nifer yr ymatebion
Saesneg	83
Cymraeg	0

Bu modd i'r ymatebwyr ymateb trwy ddefnyddio tudalen we ymgynghoriad Llywodraeth Cymru neu trwy lawrlwytho ffurflen ymateb a'i hanfon i fewnflwch electronig pwrpasol.

Dull cyflwyno	Nifer yr ymatebion
Ymatebion a gyflwynwyd ar-lein	60
Ymatebion a gyflwynwyd trwy e-bost	23

Isod, nodir manylion am y math o ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad:

Sector	Cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd
Cymdeithasau Busnes / Masnach	14
Y Cyhoedd	35
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	8
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	18
Arall / Dienw	8

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau agored a chwestiynau caeedig, gan roi cyfle i'r ymatebwyr gyflwyno adborth manwl a chrybwyll cwestiynau neu bryderon perthnasol.

Gan fod ymgynghoriad blaenorol wedi'i gynnal eisoes ynglŷn â'r cynigion yn rheoliadau drafft y Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Cymru), nid oedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys cwestiynau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r

rheoliadau. Yn hytrach, roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ynghylch y modd y disgrifir y cyfyngiadau yn y rheoliadau drafft ac ynghylch yr asesiadau effaith drafft a luniwyd i asesu effaith y cynigion ar elfennau fel y Gymraeg, cydraddoldeb a hawliau plant, er enghraifft. Yn yr ymgynghoriad blaenorol ar y cynigion hyn, ni cheisiwyd sylwadau ynghylch y modd y dylid gorfodi'r cyfyngiadau, felly gofynnwyd cwestiynau manylach yn yr ymgynghoriad hwn ynglŷn â'r agwedd hon ar y rheoliadau drafft er mwyn rhoi cyfle hollbwysig i'r ymatebwyr gyflwyno sylwadau cyn i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ddull gorfodi terfynol.

Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Cynhwysir tablau sy'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau caeedig, yn ôl y math o ymatebydd. Pan ofynnwyd cwestiynau agored yn yr ymgynghoriad, cynhwysir dyfyniadau o ymatebion yn ôl y math o ymatebydd, ochr yn ochr â chrynodeb naratif.

Wrth lunio'r adroddiad hwn, ni fwriadwyd adlewyrchu'r holl sylwadau a dderbyniwyd – yn wir, byddai hynny'n amhosibl. Diben yr adroddiad yw cynnig trosolwg o'r ymatebion, ynghyd â nodi'r mathau o faterion a phryderon a grybwyllwyd mewn perthynas â'r cynigion.

Canfyddiadau allweddol

Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn bod y rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau'n gywir ac yn glir. Yn yr ymatebion a gafwyd gan fusnesau, pwysleisiwyd yn rheolaidd pa mor bwysig yw sicrhau bod y rheoliadau'n cyd-fynd â'r rheoliadau presennol cyfatebol yn Lloegr a gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau clir er mwyn helpu busnesau i gydymffurfio â'r cyfyngiadau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd gan y sector cyhoeddus a sefydliadau iechyd/academyddion yn croesawu'r Rheoliadau arfaethedig, ond gofynnwyd a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ystyried ymestyn y cyfyngiadau er mwyn cynnwys cynhyrchion ychwanegol neu gyflwyno cyfyngiadau ychwanegol, megis ar Ostyngiadau Dros Dro mewn Prisiau (TPRs). Gwelir bod hyn yn cyferbynnu'n llwyr â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y cyhoedd, a oedd o'r farn bod y mesurau yn y rheoliadau drafft yn rhy gyfyngol. Hefyd, mynegodd y cyhoedd bryderon ynglŷn ag effaith y Rheoliadau ar gostau byw.

Crybwyllodd yr ymatebwyr nifer o safbwyntiau gwahanol ynglŷn â dull gorfodi arfaethedig y Rheoliadau. Pwysleisiodd yr ymatebwyr pa mor bwysig yw rhoi dull gorfodi cymesur ar waith – dull a fydd yn cynorthwyo busnesau i gydymffurfio â'r Rheoliadau yn hytrach na dull a fydd yn eu cosbi am beidio â chydymffurfio. Hefyd, nododd yr ymatebion fod angen i gyrff gorfodi gael adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad digonol cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Y cyhoedd a oedd yn fwyaf beirniadol o'r dull gorfodi, a mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl ar fusnesau llai.

Hefyd, cyflwynwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r asesiadau effaith drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Yn arbennig, dywedodd yr ymatebwyr nad oedd yr Aseiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi mynd ati'n ddigonol i archwilio effaith niweidiol bosibl y rheoliadau drafft ar bobl sy'n byw mewn tlogi. Hefyd, roedd yr

ymatebwyr o'r farn y dylai'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant archwilio mwy ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar blant. Roedd y sylwadau a gafwyd ynghylch yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn deillio'n bennaf o gymdeithasau busnes a masnach, a oedd o'r farn bod rhai o'r amcangyfrifon costau yn yr aseiad wedi cael eu pennu'n rhy isel.

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1

Tabl 1: A yw'r Rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau hyrwyddo a lleoli yn gywir ac yn glir er mwyn i asiantaethau busnes a gorfodi allu eu gweithredu a'u gorfodi?

Sector	Ydyn	Nac ydyn	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	10	2	0	2	14
Y Cyhoedd	11	20	3	0	34
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	4	1	1	2	8
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	9	4	0	5	18
Arall / Dienw	3	5	0	0	8

	Ydyn	Nac ydyn
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	37	32
Canran gyffredinol	45%	40%

Roedd yr ymatebion a gafwyd i gwestiwn 1 yn gymysg, gyda 45% o'r ymatebwyr yn dewis 'ydyn' a 40% o'r ymatebwyr yn dewis 'nac ydyn'. Aelodau o'r cyhoedd oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd 'nac ydyn', ac fe wnaethant nodi hefyd eu bod yn anghytuno'n gyffredinol â natur y Rheoliadau. Roedd y pryderon a grybwyllwyd gan y cyhoedd yn canolbwyntio ar yr is-themâu canlynol:

- Yr effaith ar fusnesau oherwydd y costau a allai ddod i'w rhan wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau
- Yr effaith ar gostau byw defnyddwyr yn sgil cael gwared â chynigion hyrwyddo ar eitemau bwyd dan gyfyngiadau
- Yr effaith ar ryddid defnyddwyr i ddewis.

'Ydyn' oedd ymateb y mwyafrif llethol o'r cymdeithasau busnes a masnach a ddewisodd ymateb i'r cwestiwn hwn a mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r Rheoliadau. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gefnogol i benderfyniad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Rheoliadau'n cyd-fynd â'r rheoliadau presennol cyfatebol yn

Lloegr, a dywedwyd y byddai hynny'n cynorthwyo busnesau i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Hefyd, roedd nifer o'r ymatebion a gafwyd gan fusnesau yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau clir ynglŷn â'r Rheoliadau, a nodwyd y dylai'r canllawiau hynny gyd-fynd â chanllawiau ar gyfer rheoliadau cyfatebol yn Lloegr i'r graddau mwyaf posibl. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa adeg o'r flwyddyn y daw'r Rheoliadau i rym, er mwyn sicrhau na fydd yn rhaid i fusnesau roi'r newidiadau ar waith yn ystod cyfnod prysur y Nadolig.

Yn achos yr ymatebion a dderbyniwyd ar ran llywodraeth leol, sefydliadau iechyd ac academyddion, dewisodd y mwyafrif ohonynt 'ydyn' ar gyfer y cwestiwn hwn. Thema hollbwysig yn yr ymatebion hyn oedd yr angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol. Er enghraifft, roedd nifer o'r ymatebion yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ymestyn y cyfyngiadau yn y Rheoliadau fel y gellid cynnwys ychwaneg o fusnesau o fewn cwmpas y cyfyngiadau, cynnwys cynhyrchion ychwanegol neu gynnwys cyfyngiadau hyrwyddo ychwanegol megis ar ostyngiadau dros dro mewn prisiau neu brydau bargaen. Hefyd, roedd nifer o'r ymatebion yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried cymryd camau deddfwriaethol neu gamau polisi pellach er mwyn sicrhau bod bwydydd iachach yn fforddiadwy a bod modd cael gafael arnynt yn rhwydd. Thema hollbwysig arall yn yr ymatebion, er gwaethaf y gefnogaeth frwd, oedd yr angen i gael gwell eglurhad o rai agweddau ar y Rheoliadau neu'r dull gorfodi arfaethedig – dylid cynnwys eglurhad o'r fath yn y Rheoliadau eu hunain neu mewn canllawiau. Yn arbennig, gofynnodd yr ymatebwyr am gael diffiniadau cliriach a rhestrau terfynol o gyfyngiadau. Ymhellach, gofynnwyd a fyddai modd i Lywodraeth Cymru fonitro'r rheoliadau'n rheolaidd ar ôl eu rhoi ar waith fel y gellid mesur eu heffaith, asesu unrhyw ganlyniadau anfwriadol a phennu unrhyw angen posibl i gryfhau'r Rheoliadau.

Cwestiwn 1: dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Dydw i ddim yn credu mai dyma'r peth iawn i ganolbwyntio arno. Rwy'n credu y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio ar brisiau bwydydd iachach.

Ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau. Dylai pobl fod â'r hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Bydd yn anodd i fusnesau orfodi hyn gan eu bod eisoes yn cael anawsterau mewn amgylchedd lletygarwch gwael.

Llywodraeth Leol/Byrddau Iechyd/Gorfodi

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno mewn egwyddor, ond mae'n awgrymu y dylai'r cyfyngiadau fod yn berthnasol i gyflenwyr hefyd, yn ogystal â safleoedd manwerthu. Yn aml, gall cyflenwyr ddefnyddio hyrwyddiadau pris i werthu mwy o gynhyrchion bwyd â lefelau uchel o fraster, siwgr a/neu halen i fanwerthwyr, gan sicrhau bod y cynhyrchion hynny'n fwy ffafriol. Yn aml, mae manwerthwyr yn cael anhawster i stocio eitemau iachach gan fod y costau uned yn rhy uchel.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Rydym o'r farn bod y rheoliadau arfaethedig, yn gyffredinol, yn disgrifio'r cyfyngiadau'n gywir a'u bod yn glir ac yn hawdd eu dilyn.

Dylai'r cyfyngiadau ar brisiau fod yn berthnasol i fwydydd heb eu rhag-becynnu sy'n cynnwys nifer o gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, fel cacennau a bisgedi. Hefyd, mae'r sefydliad yn credu y dylai'r Rheoliadau gynnwys hyrwyddiadau pris, fel "Bwyd Bargaen" a "Gostyngiadau Dros Dro mewn Prisiau".

Busnesau a chymdeithasau masnach

Mae'r gymdeithas fasnach yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyd-fynd â'r cyfyngiadau hyrwyddo a lleoli sydd ar waith yn Lloegr. Bydd dull rheoleiddio cyson yn ei gwneud hi'n haws o lawer i fusnesau baratoi ar gyfer y rheoliadau a chydymffurfio â nhw, oherwydd byddant eisoes yn gyfarwydd â'r rheoliadau yn Lloegr.

Rydym yn cefnogi rheoliadau a fydd yn ategu canlyniadau iechyd gwell. Trwy ohirio rhoi'r deddfwriaeth ar waith tan fis Mawrth 2026, bydd modd rhoi digon o amser i gydymffurfio'n llwyr â'r gofynion deddfwriaethol.

Cwestiwn 2

A yw'r Rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau ail-lenwi am ddim yn gywir ac yn glir er mwyn i asiantaethau busnes a gorfodi allu eu gweithredu a'u gorfodi?

Sector	Ydyn	Nac ydyn	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	10	2	0	0	12
Y Cyhoedd	10	20	4	0	34
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	4	0	0	0	4
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	9	4	0	0	13
Arall / Dienw	2	5	0	0	7

	Ydyn	Nac ydyn
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	35	31
Canran gyffredinol	50%	45%

Fel yng nghwestiwn 1, roedd yr ymatebion a gafwyd i gwestiwn 2 yn gymysg, gyda 50% o'r ymatebwyr yn dewis 'ydyn' a 45% yn dewis 'nac ydyn'. Unwaith eto, aelodau o'r cyhoedd oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd 'nac ydyn' ac roeddynt yn anghytuno'n gyffredinol â'r Rheoliadau. Roedd y pryderon a grybwyllwyd gan y cyhoedd yn canolbwyntio ar yr is-themâu yng nghwestiwn 1. Yr effaith ar ryddid defnyddwyr i ddewis oedd y pryder a fynegwyd yn fwyaf mynych, a hefyd mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith y cyfyngiadau ail-lenwi ar gostau byw.

'Ydyn' oedd ateb y mwyafrif o fusnesau a chymdeithasau masnach i'r cwestiwn hwn. Dewisodd y mwyafrif o'r ymatebion yn y grŵp hwn beidio â chyflwyno sylwadau ychwanegol, ond nododd un gymdeithas fasnach fod y cyfyngiad yn cyd-fynd â chyfyngiadau yn rheoliadau cyfatebol presennol Llywodraeth y DU a chadarnhaodd y gymdeithas nad oedd busnesau wedi mynegi unrhyw ddryswch ynglŷn â'r cyfyngiadau yn Lloegr.

Hefyd, nododd y mwyafrif o'r ymatebion a gyflwynwyd gan is-grwpiau eraill eu bod o'r farn bod y rheoliadau drafft yn disgrifio'r cyfyngiadau ail-lenwi am ddim yn gywir ac yn glir. Awgrymodd un bwrdd iechyd y byddai'n fuddiol cynnwys enghreifftiau o'r

hyn mae hyrwyddo 'ail-lenwi am ddim' yn ei olygu ar draws gwahanol fathau o fusnesau (e.e. gorsafoedd diod hunanwasanaeth mewn bwytaï) er mwyn helpu busnesau i ddeall cwmpas y cyfyngiad yn well. Cais hollbwysig gan ymatebwyr eraill oedd gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ymestyn y cyfyngiadau ail-lenwi er mwyn cynnwys cynhyrchion ychwanegol, fel diodydd deiet/heb siwgr neu gynhyrchion sudd a llaeth. Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyfyngu ar faint diodydd er mwyn annog pobl i beidio ag yfed gormod.

Cwestiwn 2: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Rhywbeth 'moethus' yw cael ail-lenwi diodydd am ddim – nid yw pobman yn cynnig hyn, felly trwy gael gwared ag ef yr unig beth y llwyddir i'w wneud yw cynyddu'r gost i'r defnyddwyr ac i'r bobl dlotaf yn y gymdeithas pan fyddant yn penderfynu mynd allan.

Ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau. Dylai pobl fod â'r hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Tynnwch ef o'r rheoliadau. Mae ail-lenwi am ddim yn beth da.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Mae'r gymdeithas fasnach yn nodi bod y rheoliadau'n cyd-fynd â Lloegr o ran disgrifio cyfyngiadau ail-lenwi am ddim. Cyn i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith yn Lloegr, ni chlywodd y gymdeithas fasnach am unrhyw ddryswch ynglŷn â'r cyfyngiadau ail-lenwi am ddim, felly credwn fod y disgrifiad o'r cyfyngiadau'n ddigonol i sicrhau bod busnesau yn eu deall.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae'r rheoliadau'n nodi'n glir yr hyn mae hyrwyddo ail-lenwi am ddim yn ei olygu a beth yw diodydd meddal, yn cynnwys eithriadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â'r cyfyngiadau ail-lenwi am ddim, ond mae'n credu y dylid cyfyngu rhywfaint ar faint y diodydd a gynnigir. Heb wneud hyn, beth sy'n rhwystro'r manwerthwr rhag gwerthu swmp mwy o un diod er mwyn annog goryfed mewn ffyrdd newydd.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Mae'r Rheoliadau drafft wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn gywir a dylent sicrhau bod y prosesau gweithredu a gorfodi yn syml.

Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd camau'n cael eu cymryd i ymdrin ag ail-lenwi am ddim a byddem yn mynd ymhellach i reoleiddio'r meintiau mwyaf y gellir eu gwerthu gan fod diodydd o'r fath yn cyfrannu'n fawr at y siwgr a'r calorïau sy'n rhan o ddeiet pobl, a hefyd gan y gallai cyfyngiadau ar ail-lenwi am ddim wthio rhagor o fanwerthwyr i gynnig dognau mwy.

Dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig nodi'n glir beth yw'r sefyllfa o ran diodydd deiet/heb siwgr. Er nad yw diodydd o'r fath yn cynnwys dim/fawr ddim calorïau/siwgr, gallant fod yn niweidiol i iechyd mewn ffyrdd eraill, e.e. iechyd y geg. Rhaid bod yn gwbl glir ynglŷn â chynnwys / eithrio bwydydd sy'n cynnwys melysyddion.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n rhagweld y bydd y gwahaniaeth yn y ffordd y mae cyfyngiadau pen draw eil wedi'u cyflwyno yn Lloegr ac yn rheoliadau cyfatebol Cymru yn achosi unrhyw heriau gweithredol i fusnesau bwyd cymwys neu swyddogion gorfodi?

Sector	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	3	5	3	3	14
Y Cyhoedd	13	15	5	1	34
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	4	0	0	6
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	4	7	2	0	13
Arall / Dienw	5	0	0	0	5

	Ydw	Nac ydw
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	27	31
Canran gyffredinol	36%	43%

Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhagweld y byddai'r gwahaniaeth yn y ffordd mae cyfyngiadau pen draw eil wedi'u cyflwyno yn Lloegr ac yn rheoliadau cyfatebol Cymru yn achosi unrhyw heriau gweithredol i fusnesau bwyd cymwys neu swyddogion gorfodi. Y cyhoedd a gyflwynodd yr ymateb mwyaf cymysg. Ailadroddodd rhai o'r ymatebwyr y ffaith eu bod yn anghytuno'n gyffredinol â'r Rheoliadau arfaethedig a soniwyd am yr effaith y gallai'r Rheoliadau ei chael ar allu defnyddwyr i ddewis a hefyd ar gostau byw. Yn ôl ymatebwyr eraill, byddai cyfyngiadau pen draw eil yn aneffeithiol o ran cynorthwyo defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach gan y byddai busnesau'n siŵr o ddod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo cynhyrchion dan gyfyngiadau neu gan y byddai'r gwahaniaeth arfaethedig yn y ffordd y disgrifir pen draw eiliau yn peri dryswch i fusnesau sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr.

Roedd y mwyafrif o'r busnesau a'r cymdeithasau masnach yn cefnogi'r geiriad arfaethedig. Yn achos y rhai a ddewisodd 'ydw', dywedasant y dylai'r geiriad yn rheoliadau Llywodraeth Cymru gyd-fynd â'r geiriad yn Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021, er mwyn sicrhau dehongliad cyson ac osgoi unrhyw ddryswch. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr na fyddai hyn yn cael rhyw lawer o effaith ar fanwerthwyr sy'n gweithredu ar draws y ddwy wlad gan fod y mwyafrif o fusnesau sydd eisoes yn gweithredu dan reoliadau cyfatebol Lloegr yn

defnyddio cyfyngiadau pen draw eil, ni waeth pa mor agos ydynt at 'brif lwybr cwsmeriaid' trwy'r siop.

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan is-grwpiau eraill yn gymysg. Yn ôl rhai o'r ymatebwyr, byddai geiriad y Rheoliadau drafft yn ei gwneud hi'n hawdd i fusnesau gydymffurfio â'r Rheoliadau ac i swyddogion gorfodi asesu cydymffurfiaeth. Roedd ymatebwyr eraill yn bryderus y byddai'r gwahaniaethau mewn rheoliadau cyfatebol yng Nghymru a Lloegr yn arwain at anawsterau i fanwerthwyr. Fodd bynnag, dadleuodd nifer o'r ymatebwyr y byddai busnesau'n debygol o allu goresgyn unrhyw heriau posibl pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau a negeseuon clir.

Cwestiwn 3: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Yn achos cadwyni siopau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, bydd hyn yn cyflwyno anghysondebau o ran y modd maent yn gweithredu. Efallai y byddant angen gweithdrefnau gwahanol i'r staff mewn gwahanol wledydd – rhywbeth a allai beri dryswch ac arwain at dorri'r ddeddfwriaeth yn ddiotal ar gyfer y wlad berthnasol.

Mae gosod bwydydd nad ydynt yn iach mewn lleoliadau amlwg, fel pen draw eiliau, wastad wedi bod yn ddull hyrwyddo da, felly mae troi'r syniad o chwith er mwyn ei gymhwyso at opsiynau iach yn syniad da.

Gellir hyrwyddo'r mwyafrif o'r eitemau yn yr eil hefyd.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Bydd cyfyngiadau pen draw eil yng Nghymru yn gymwys ni waeth a yw pen draw'r eil ger prif lwybr cwsmeriaid trwy'r siop, ai peidio. Rydym yn credu bod y dull hwn yn ymarferol, oherwydd mae diffinio 'prif lwybr cwsmeriaid' mewn amgylcheddau manwerthu yn gallu bod yn dasg anodd.

Awgrymwn y dylid defnyddio'r un geiriad â'r un a ddefnyddir yn Lloegr er mwyn sicrhau dehongliad cyson a ffyrdd o gyflawni cydymffurfiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Bydd yn rhaid inni gyflwyno rhai newidiadau gweithredol yn ein siopau. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd hon yn dasg fawr. Mae'r mwyafrif o'n harddangosfeydd pen draw eil wedi'u cyfyngu yn Lloegr dan reoliadau cyfredol.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Gallai'r gwahaniaeth yn y modd y pennir cyfyngiadau pen draw eil yng Nghymru a Lloegr (lle bydd y cyfyngiadau yng Nghymru yn berthnasol i ben draw eiliau o bob math, ni waeth a ydynt ger "prif lwybr cwsmeriaid", ai peidio) arwain at heriau gweithredol i fusnesau sy'n gweithredu yn y ddau ranbarth.

Yn aml, mae cwmnïau aml-safle yn cyhoeddi cyngor/gweithdrefnau gweithredu safonol ac efallai y byddant yn mabwysiadu'r canllawiau a roddwyd i safleoedd sy'n bodoli eisoes yn Lloegr – rhywbeth a allai achosi mân anawsterau i swyddogion gorfodi.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfyngiadau yng Nghymru a Lloegr yn glir. Rydym yn cefnogi'r cyfyngiad arfaethedig yng Nghymru, a fydd yn gymwys ni waeth a fydd pen draw'r eil ger prif lwybr cwsmeriaid trwy'r siop, ai peidio.

Rydym yn cefnogi'r Rheoliadau ar gyfer Cymru sy'n ymdrin â chyfyngiadau pen draw eil trwy gael gwared â'r maen prawf 'prif lwybr cwsmeriaid'. Credwn y bydd hyn yn symleiddio'r broses gydymffurfio i fusnesau a swyddogion gorfodi. Fodd bynnag, gallai'r gwahaniaeth rhwng rheoliadau Cymru a rheoliadau Lloegr esgor ar heriau gweithredol.

Cwestiwn 4

A ddylai awdurdodau lleol roi hysbysiadau gwella mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfyngiadau fel y cam ffurfiol cyntaf, fel y nodir ym mharagraff 21 uchod?

Sector	Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	11	0	0	1	12
Y Cyhoedd	8	19	5	1	33
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	5	1	0	1	7
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	10	1	2	1	14
Arall / Dienw	0	5	1	0	6

	Dylent	Na ddylent
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	34	26
Canran gyffredinol	47%	37%

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod hysbysiadau gwella yn ffordd briodol o annog busnesau i gydymffurfio â'r Rheoliadau arfaethedig. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r cyhoedd eu bod yn anghytuno â'r Rheoliadau arfaethedig a dywedasant eu bod yn gwrthwynebu ymyrraeth y llywodraeth yn y maes hwn. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â'r costau gorfodi a fyddai'n dod i ran trethdalwyr ynghyd â'r baich gorfodi ychwanegol y byddai'r Rheoliadau'n ei roi ar Awdurdodau Lleol. Yn achos aelodau o'r cyhoedd a ddewisodd 'dylent', roeddynt o'r farn bod defnyddio hysbysiadau gwella yn gymesur ac y byddai hynny'n esgor ar ddull gorfodi cytbwys.

Yn achos y busnesau a'r cymdeithasau masnach a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedasant eu bod yn cefnogi'r syniad o ddefnyddio hysbysiadau gwella fel y cam gorfodi ffurfiol cyntaf mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Roedd yr ymatebwyr yn y categori hwn o blaid hierarchiaeth orfodi a fyddai'n anelu at ategu cydymffurfiaeth yn hytrach na chosbi diffyg cydymffurfio. Fel rhan o hyn, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen i gyrrff gorfodi a busnesau ymgysylltu'n anffurfiol ac yn drylwyr cyn rhoi unrhyw gamau ffurfiol ar waith.

Roedd ymatebwyr o blith yr holl is-grwpiau eraill hefyd o blaid defnyddio hysbysiadau gwella ac roeddynt o'r farn bod hysbysiadau o'r fath yn gam cyntaf teg a chymesur

yn y broses orfodi ffurfiol. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai cyrff gorfodi a busnesau ymgysylltu'n anffurfiol cyn rhoi unrhyw gamau ffurfiol ar waith, er mwyn rhoi cyfle i fusnesau gyflwyno gwelliannau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd yn nifer o'r ymatebion bod angen rhoi canllawiau clir ac adnoddau digonol i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i orfodi'r Rheoliadau.

Cwestiwn 4: Dyfyniadau o'r ymatebion:

Y cyhoedd

Perchennog y siop ddylai fod â'r hawl i benderfynu, nid y llywodraeth.

Dydy awdurdodau lleol ddim yn cael digon o arian yn barod ac ni ddylid trosglwyddo'r costau gorfodi i'r trethdalwyr gan fod trethi eisoes yn rhy uchel o lawer. Dylai Llywodraeth Cymru dalu'r costau gorfodi.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Mae'r gymdeithas fasnach yn croesawu'r dull gorfodi arfaethedig sy'n canolbwyntio ar 'gefnogi cydymffurfiaeth yn hytrach na chosbi diffyg cydymffurfio'. Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio hysbysiadau gwella; fodd bynnag, dylai hysbysiadau o'r fath fod yn rhan o hierarchaeth orfodi sy'n dechrau gyda chyfathrebu anffurfiol gyda'r FBO neu trwy gyfrwng trafodaethau partneriaeth yr Awdurdod Sylfaenol.

Mae'r rheoliadau hyn yn gymhleth a byddant yn esgor ar lu o heriau i fusnesau, felly croesewir y syniad o ddefnyddio hysbysiadau gwella er mwyn cynnig cyfle i fusnesau gywiro diffygion cyn wynebu cosbau llymach neu gamau cyfreithiol.

Llywodraeth Leol/Y Sector Cyhoeddus

Rydym yn cytuno y byddai'n briodol defnyddio Hysbysiadau Gwella ar gyfer rhai tramgwyddau yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio; a chan fod hysbysiadau gwella'n cael eu defnyddio i gywiro achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn deddfwriaethau eraill yn ymwneud â bwyd, byddai busnesau'n hollol ymwybodol o'u bodolaeth.

Rydym yn cytuno â dull sy'n canolbwyntio ar wella yn y lle cyntaf a chredwn y bydd yn bwysig cynorthwyo busnesau i roi camau cywirol ar waith os ydynt yn methu â chydymffurfio.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Rydym o'r farn bod hyn yn briodol. Mae'n adlewyrchu arferion a roddir ar waith mewn mannau eraill. Yn bwysicach, bydd yn sicrhau y gellir gorfodi'r cyfyngiadau arfaethedig ac y cânt eu rhoi ar waith yn eang.

Gwelwn mai'r awdurdod lleol fydd y corff gorfodi tebygol. Nid ydym yn gwrthwynebu hyn mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, er mwyn i awdurdodau lleol allu ysgwyddo cyfrifoldebau gorfodi o'r fath, bydd yn hanfodol iddynt gael yr adnoddau gofynnol i fynd i'r afael â'u rôl.

Cwestiwn 5

A oes amgylchiadau lle na fydd hysbysiad gwella yn briodol?

Sector	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	3	2	4	1	10
Y Cyhoedd	14	8	9	2	33
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	3	1	1	1	6
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	4	3	4	1	12
Arall / Dienw	5	1	0	0	6

	Oes	Nac oes
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	29	15
Canran gyffredinol	44%	22%

Cyflwynodd y cyhoedd gymysgedd o safbwyntiau ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn na ddylid gorfodi'r Rheoliadau o gwbl am y rhesymau a nodwyd ar gyfer cwestiynau blaenorol, dywedodd ymatebwyr eraill fod angen mwy o hyblygrwydd yn y dull gorfodi arfaethedig er mwyn adlewyrchu amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, awgrymodd ymatebwyr y gallai dull gwahanol fod yn fwy addas ar gyfer y rhai sydd wedi anwybyddu Hysbysiadau Gwella blaenorol.

Rhannodd busnesau a chymdeithasau masnach sylwadau cyfyngedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn achos y rhai a gyflwynodd sylwadau, ailadroddwyd na ddylid cyflwyno Hysbysiadau Gwella hyd nes y bydd swyddogion gorfodi wedi ymgysylltu'n anffurfiol â'r busnes a'i awdurdod sylfaenol. Yn ôl un busnes, efallai na fyddai Hysbysiadau Gwella yn briodol pan fo busnes wedi torri gofynion yn sylweddol yn y gorffennol.

Roedd ymatebion is-grwpiau eraill yn gymysg hefyd. Yn achos y mwyafrif o'r ymatebwyr a ddewisodd 'oes', fe wnaethant awgrymu na fyddai Hysbysiadau Gwella yn addas o angenrheidrwydd i fusnesau y gwelir eu bod yn peidio â chydymffurfio'n fynych ac yn fwriadol â'r Rheoliadau. Mewn un ymateb a gafwyd gan gorff gorfodi, nodwyd y cytunir â'r syniad o ddefnyddio Hysbysiadau Gwella i annog cydymffurfiaeth, ond dywedwyd hefyd bod yna berygl y gallai busnesau beidio â chydymffurfio drachefn ar ôl i gyfnod yr hysbysiad ddod i ben, gan arwain at oblygiadau adnoddau i swyddogion gorfodi.

Cwestiwn 5: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Ddylai'r rheoliad ddim bodoli o gwbl.

Peidiwch â gwneud unrhyw beth. Does dim angen dull gorfodi llawdrwm.

Ar gyfer amryfal droseddwyr neu gadwyni manwerthwyr.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Os yw rhyw fusnes wedi torri gofynion yn y gorffennol, mewn modd sylweddol, ni ddylid rhoi hysbysiad gwella iddo. Rydym yn annog geirio'r ddeddfwriaeth neu'r canllawiau'n ofalus er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau hyn yn glir i awdurdodau gorfodi.

[...] dim ond ar ôl dihybysyddu dulliau ymgysylltu llafar anffurfiol gyda'r busnes a'i awdurdod sylfaenol y dylid cyflwyno hysbysiad ffurfiol.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Efallai y byddai'n amhriodol cyflwyno hysbysiad gwella os oes hysbysiad gwella blaenorol wedi'i roi yn barod o fewn cyfnod amser penodol – hysbysiad y methodd y busnes bwyd â chydymffurfio ag ef.

Rydym yn cytuno y bydd defnyddio Hysbysiadau Gwella yn annog y busnesau hynny sy'n dymuno cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth i gywiro unrhyw dramgwyddau y daethpwyd o hyd iddynt. Fodd bynnag, fel yn achos deddfwriaeth arall lle defnyddir hysbysiadau, mae yna risg y bydd rhai busnesau'n cydymffurfio erbyn y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad, ond y byddant wedyn yn rhoi'r gorau i gydymffurfio ar ôl i'r hysbysiad ddod i ben. Gallai hynny arwain at oblygiadau adnoddau i swyddogion gorfodi o ran llunio hysbysiadau 'diffyg cydymffurfio' eraill cyn uwchgyfeirio achosion ar gyfer camau gorfodi pellach.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Efallai na fydd hysbysiadau gwella yn addas i fusnesau sy'n methu â chydymffurfio'n gyson â'r ddeddfwriaeth; er enghraifft, siopau sydd wedi cael hysbysiadau gwella yn y gorffennol ac sy'n amlwg yn anwybyddu'r ddeddfwriaeth.

Daw hyn yn amlwg ar ôl rhoi'r Rheoliadau ar waith ac ar ôl canfod amgylchiadau posibl pan na fydd hysbysiadau gwella yn addas o bosibl.

Cwestiwn 6

Os bydd busnes yn methu â bodloni telerau hysbysiad gwella, a yw cosb ariannol benodedig o £2,500 yn briodol, fel y nodir ym mharagraff 22 uchod?

Sector	Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	6	0	2	5	13
Y Cyhoedd	5	23	3	0	31
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	2	1	0	5
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	4	4	3	0	11
Arall / Dienw	0	5	0	0	5

	Ydy	Nac ydy
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	17	34
Canran gyffredinol	26%	53%

Yn achos 74% o'r cyhoedd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, fe wnaethant nodi eu bod o'r farn nad oedd cosb ariannol benodedig o £2,500 yn addas ar gyfer busnesau sy'n methu â bodloni telerau Hysbysiadau Gwella. Yn gyffredinol, ailadroddodd y cyhoedd na ddylid gorfodi'r Rheoliadau. Hefyd, mynegodd nifer o ymatebion bryderon ynglŷn ag effaith y dirwyon ar fusnesau sy'n masnachu mewn hinsawdd economaidd anodd ar hyn o bryd. Dywedodd ymatebion eraill y dylai swm y gosb ariannol benodedig gyd-fynd â maint neu drosiant y busnes.

Ar y cyfan, nododd busnesau a chymdeithasau masnach eu bod yn cytuno â'r agwedd hon ar y dull gorfodi arfaethedig. Roedd un ymatebydd a gyflwynodd sylwadau ychwanegol o'r farn y byddai cosb ariannol benodedig o £2,500 yn atal busnesau rhag peidio â chydymffurfio, gan roi cyfle iddynt hefyd gyflwyno gwelliannau cyn y byddai camau cyfreithiol pellach yn cael eu cymryd yn eu herbyn.

Cafwyd safbwyntiau cymysg gan lywodraeth leol a gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai defnyddio cosbau ariannol penodedig yn sicrhau y byddai busnesau'n cydymffurfio â'r Rheoliadau, gan sicrhau hefyd bod y dull gorfodi'n parhau i fod yn deg ac yn gymesur. Yn achos y rhai a ddewisodd 'nac ydy', awgrymwyd y dylid cael system gosb a allai ehangu'n unol â'r gofynion, lle gellid addasu'r gosb ar sail ffactorau fel maint y busnes a difrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Cwestiwn 6: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Rwy'n credu y dylai'r swm gyd-fynd â maint y busnes. Er enghraifft, os yw'r busnes yn fanwerthwr annibynnol yn hytrach na brand – dyw £2,500 yn ddim i frand, ond gallai swm o'r fath roi manwerthwr annibynnol yn y fantol.

Ni ddylid defnyddio dirwyon gan fod y diwydiant lletygarwch yng Nghymru eisoes mewn trafferthion. Mae Llywodraeth Cymru yn groes i fusnesau. Dyma gost ychwanegol na all busnesau ei hymgorffori.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Credwn fod y drefn hon yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer rheoliadau eraill yn ymwneud â bwyd.

Os gwelir nad yw rhyw fusnes yn bodloni'r gofynion cydymffurfio a nodir yn yr hysbysiad gwella, byddem yn cefnogi'r syniad o gyflwyno hysbysiad cosb benodedig o £2,500. Mae'n bwysig sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn yr un modd, er mwyn iddynt ddilyn yr un safonau cydymffurfio. Mae'r swm yn ddigon mawr i atal busnesau rhag ystyried ymddwyn yn y modd hwn. Hefyd, rhoddir cyfle iddynt wella'u harferion heb orfod wynebu camau cyfreithiol yn syth.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae cosb benodedig o £2,500 am fethu â bodloni telerau hysbysiad gwella yn ddull ariannol pwysig ar gyfer atal diffyg cydymffurfio, ac ar yr un pryd mae'n parhau i fod yn gymesur â natur y diffyg cydymffurfio. Hefyd, mae'r swm yn cyd-fynd â rheoliadau tebyg, gan hyrwyddo cysondeb a thegwch ar draws gwahanol gyd-destunau gorfodi. Dylid rhoi ystyriaeth i allu'r system gosb i ehangu yn unol â'r gofynion, lle gellid addasu'r swm ar sail ffactorau fel maint y busnes a difrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Gallai swm y gosb ariannol gyd-fynd â maint y busnes a gellid ei deilwra'n benodol ar gyfer ad-droseddwyd.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Mae gennym bryderon ynglŷn â gallu'r gosb hon i atal busnesau rhag peidio â chydymffurfio, yn enwedig busnesau mawr. Efallai y byddai'n werth ystyried gwahanol haenau o gosbau, gan ddibynnu ar faint y busnes. Fodd bynnag, sylweddolwn fod angen taro cydbwysedd gyda busnesau.

Byddai hysbysiadau gwella yn rhoi cyfle rhesymol i fusnesau addasu i reoliadau newydd a chydymffurfio â'r cyfyngiadau pen draw eil pan na lwyddasant i wneud hynny yn y gorffennol. Fel y nodir yn glir yn y rheoliadau arfaethedig, dim ond ar ôl i fusnesau fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella y byddai cosb ariannol benodedig o £2,500 yn cael ei chyflwyno. O'r herwydd, byddai cosb ariannol benodedig o £2,500 yn deg ac yn briodol yn y cyd-destun hwn.

Cwestiwn 7

A oes amgylchiadau lle gallai dull gwahanol fod yn fwy priodol?

Sector	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	5	1	2	0	8
Y Cyhoedd	16	5	7	4	31
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	3	2	0	0	5
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	4	2	5	1	12
Arall / Dienw	4	0	1	0	5

	Oes	Nac oes
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	32	10
Canran gyffredinol	52%	17%

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn adleisio'r ymatebion a gyflwynwyd ar gyfer cwestiwn 6. Ailadroddodd aelodau o'r cyhoedd nad oeddynt yn cytuno â'r rheoliadau na'r dull gorfodi arfaethedig. Awgrymodd lleiafrif o ymatebion o blith y grŵp hwn y gellid teilwra'r dull gorfodi yn ôl maint y busnes.

Hefyd, ailadroddodd busnesau a chymdeithasau masnach eu sylwadau blaenorol ynglŷn â pha mor bwysig yw hi i swyddogion gorfodi ymgysylltu'n anffurfiol gyda busnesau cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Ailadroddodd nifer o ymatebion a gafwyd gan lywodraeth leol a gweithwyr iechyd proffesiynol yr awgrym y dylid cael system gosb a allai ehangu yn unol â'r gofynion fel y gellid ystyried maint y busnes, hanes y busnes o ran cydymffurfio â'r Rheoliadau neu ddifrifoldeb y tramgwydd. Dadleuodd eraill y gall fod angen dull gorfodi llai ffurfiol pan fo'r methiant i gydymffurfio yn digwydd oherwydd diffyg dealltwriaeth neu adnoddau, yn hytrach na bod busnesau'n diystyru'r Rheoliadau'n fwriadol. Mewn amgylchiadau o'r fath, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid cynnig hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol i fusnesau.

Cwestiwn 6: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Mater i Lywodraeth Cymru yw addysgu pobl i roi arferion da ar waith. Ni ddylai'r llywodraeth gyfyngu ar ddewis rhydd unigolion ac ni ddylai godi prisiau eitemau y buswn i'n eu hystyried yn ddanteithion achlysurol.

Peidiwch â rhoi'r agweddau hyn ar waith.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Fel cam cyntaf, byddem yn annog trafodaethau rhwng awdurdodau gorfodi a busnesau mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd hyn yn sicrhau bod y busnes yn deall ei gyfrifoldebau, a hefyd bydd yn helpu awdurdodau gorfodi i ddeall pa gymorth ychwanegol mae busnesau ei angen er mwyn eu helpu i gydymffurfio.

Gwaith anodd yw cyffredinoli, oherwydd yn aml fe fydd yr amgylchiadau'n amrywio. Ond yn gyffredinol, byddem yn annog awdurdodau lleol neu unrhyw gorff gorfodi arall i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda busnesau y bernir eu bod wedi torri rhyw reoliad, cyn penderfynu cyflwyno dirwy fawr.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Yn achos tramgwyddau a diffyg cydymffurfio mwy difrifol, efallai y gall yr awdurdod gorfodi ystyried erlyn y busnes. Gellid gwneud hynny pan fo gan y busnes nifer o safleoedd a phan welir bod pob safle yn methu â chydymffurfio.

Efallai y byddai dull gwahanol yn fwy addas mewn rhai amgylchiadau, yn hytrach na chyflwyno cosb ariannol benodedig. Er enghraifft, pan fo'r methiant i gydymffurfio yn digwydd oherwydd diffyg dealltwriaeth neu adnoddau, yn hytrach na bod busnesau'n diystyru'r rheoliadau'n fwriadol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn bryderus y bydd yr effaith ar fusnesau bach yn fwy o lawer. A oes yna gynsail o ran cael cosb seiliedig ar ganran ar sail incwm/maint y busnes?

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Daw hyn yn amlwg ar ôl rhoi'r Rheoliadau ar waith ac ar ôl canfod dulliau amgen.

Mae ein gwaith ymchwil gyda swyddogion awdurdodau lleol yn tynnu sylw at bwysigrwydd dirwyon cymesur sy'n seiliedig ar faint sefydliadau er mwyn atal diffyg cydymffurfio yn effeithiol. Yn ogystal â hyrwyddo tegwch trwy sicrhau bod y cosbau'n deg i fusnesau llai, mae'r dull hwn yn cosbi busnesau mwy mewn ffordd briodol – hynny yw, busnesau y mae eu heffaith a'u gallu i gydymffurfio yn fwy.

Cwestiwn 8

A yw 28 diwrnod yn gyfnod priodol i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau neu i ryddhau atebolrwydd am hysbysiad o fwriad, fel y nodir ym mharagraff 23 uchod?

Sector	Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masach	7	0	1	0	8
Y Cyhoedd	11	13	9	0	33
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	2	0	0	4
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	11	1	1	0	13
Arall / Dienw	0	4	1	0	5

	Ydy	Nac ydy
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	31	20
Canran gyffredinol	49%	32%

'Ydy' oedd ateb y mwyafrif helaeth o fusnesau a sefydliadau iechyd/academyddion i gwestiwn 8, a nodwyd eu bod o'r farn bod 28 diwrnod yn gyfnod priodol i fusnesau gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau neu ryddhau atebolrwydd am Hysbysiad o Fwriad. Ond roedd ymatebion y cyhoedd a llywodraeth leol yn fwy cymysg.

Yn achos aelodau o'r cyhoedd a ddewisodd 'nad ydy', dywedasant y dylid rhoi mwy na 28 diwrnod i fusnesau neu na ddylid gorfodi'r Rheoliadau o gwbl.

Yn ôl sylwadau a gafwyd gan lywodraeth leol, gwelwyd cytundeb cyffredinol gyda'r dull arfaethedig. Pwysleisiodd un ymateb pa mor bwysig yw cynnig cymorth i fusnesau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau, er enghraifft, eu bod yn deall y Rheoliadau. Yn ôl ymatebydd arall, mae'r cyfnod hwn o 28 diwrnod yn cydbwysu'r angen i fusnesau gael digon o amser i ymateb ar y naill law a'r angen i roi camau gorfodi amserol ar waith ar y llaw arall.

Cadarnhaodd busnesau a sefydliadau iechyd/academyddion fod y cynnig yn cyd-fynd â rheoliadau bwyd sy'n bodoli eisoes ac, ar y cyfan, roeddynt o'r farn bod y dull hwn yn deg ac yn rhesymol.

Cwestiwn 8: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Mae 28 diwrnod yn gyfnod rhy fyr o lawer i fusnesau newid cynllun eu safleoedd a'u polisïau.

Ni ddylid gorfodi'r rheoliadau.

Busnesau a chymdeithasau masnach

28 diwrnod yw'r cyfnod hwyaf y gellir ei ganiatáu a dylai roi digon o amser i fusnesau gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau neu ryddhau atebolrwydd am Hysbysiad o Fwriad.

Cyn belled â bod yr hysbysiad o fwriad yn cael ei gyfathrebu'n glir ar ddechrau'r cyfnod.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno y dylid rhoi 28 diwrnod i fusnesau; ac yn ystod y cyfnod hwnnw, dylid rhoi cymorth i fusnesau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y rheoliadau, bod modd iddynt ddod o hyd i gyflenwyr amgen a'u bod yn deall disgwyliadau unrhyw wrthwynebiadau. Hefyd, rhaid ystyried lefel y cymorth y bydd rhai busnesau ei angen gan yr Awdurdod Lleol a bydd hyn hefyd yn lleihau'r pwysau ar y rhai sy'n cynorthwyo. Byddai'n fuddiol cael rhagor o ganllawiau ar yr hyn sy'n cyfateb i wrthwynebiadau rhesymol mewn perthynas â'r hysbysiad o fwriad.

28 diwrnod yw'r cyfnod a roddir ar gyfer cydymffurfio mewn meysydd eraill sy'n berthnasol i deddfwriaeth orfodol Safonau Masnach.

Sefydliadau Iechyd, elusennau ac academyddion

Ymddengys fod y cyfnod hwn yn deg; dyma'r cyfnod hwyaf ar gyfer tramgwyddau deddfwriaethol eraill.

Ystyrir bod yr arfer hwn yn arfer safonol.

Cwestiwn 9

Pan fo cosb ariannol benodedig wedi'i rhoi, er enghraifft, am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, a ddylai person allu ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd ar ôl cael cosb ariannol benodedig, a hynny ar gyfradd o 50% o'r gosb a roddwyd, fel y nodir ym mharagraff 23 uchod?

Sector	Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	6	0	1	0	7
Y Cyhoedd	6	18	8	0	32
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	2	0	0	4
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	6	1	4	0	11
Arall / Dienw	1	3	1	0	5

	Dylai	Na ddylai
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	21	24
Canran gyffredinol	35%	41%

I raddau helaeth, roedd y sylwadau a gafwyd gan y cyhoedd mewn ymateb i gwestiwn 9 yn ailddatgan na ddylid gorfodi'r Rheoliadau o gwbl. Ond roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr ym mhob grŵp arall yn cytuno â'r dull arfaethedig. Yn ôl un gymdeithas fasnach, gallai hyn annog busnesau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, gan leihau'r amser y byddai'n rhaid i gyrff gorfodi ei dreulio yn rheoli'r broses orfodi. Adleisiwyd hyn gan ymatebwyr mewn grwpiau eraill a gyflwynodd sylwadau ychwanegol, ac eithrio un bwrdd iechyd a oedd o'r farn y byddai caniatáu i berson ryddhau atebolrwydd trwy dalu 50% o'r gosb ariannol benodedig yn arwain, o bosibl, at danseilio effaith y gosb ariannol benodedig, gan roi baich gweinyddol ychwanegol ar asiantaethau gorfodi. Awgrymodd ymatebydd arall a oedd yn gweithio i lywodraeth leol y gellid cael meini prawf cymhwystra gogyfer cosb ariannol is ar gyfer troseddau tro cyntaf neu fân broblemau o ran diffyg cydymffurfio, er mwyn atal ad-droseddwr rhag manteisio ar y system a sicrhau tegwch wrth orfodi.

Cwestiwn 9: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Ni ddylid cyflwyno cosb benodedig o gwbl – mae hyn yn anghyfansoddiadol ac yn enghraifft o gamddefnyddio pŵer er mwyn sicrhau enillion ariannol.

Ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau, felly ni ddylid cyflwyno unrhyw gosbau. Dylai pobl fod â'r hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Byddai'r gymdeithas fasnach yn cefnogi'r mesur hwn ar y sail y byddai cosb ariannol is yn annog busnesau i gydymffurfio'n gyflym – rhywbeth a fyddai o fudd i'r busnes ac i'r gymuned orfodi. I fusnesau, byddai cosb ariannol is yn eu cymell i gydymffurfio â'r rheoliadau, felly byddai adrannau Safonau Masnach yn gorfod treulio llai o amser yn rheoli'r broses, gan eu galluogi i dreulio amser yn fwy effeithiol yn mynd i'r afael â gwaith gorfodi mewn mannau eraill.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae'r arfer hwn yn arfer safonol mewn meysydd eraill lle cyflwynir hysbysiadau cosb benodedig, felly mae busnesau'n ymwybodol y gallant leihau'r gosb ariannol trwy dalu'n gynnar.

Ni ddylid cynnig opsiwn i haneru'r gosb ariannol. Byddai hynny'n tanseilio effaith y gosb ariannol benodedig ac yn rhoi baich gweinyddol ychwanegol ar asiantaethau gorfodi.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Pe bai rhyw fusnes yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau fwy nag unwaith o fewn cyfnod penodedig, er enghraifft chwe mis, dylid cyflwyno hysbysiad cosb benodedig arall.

O bosibl, os yw'n cyd-fynd â thramgwyddau eraill o'r fath ac os oes camau cywirol hefyd wedi'u cymryd o fewn y cyfnod. Ond os cyflwynir y gosb yn llawn, heb ei lleihau, mae'n debygol y byddai hynny'n cymell busnesau i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Cwestiwn 10

A yw 28 diwrnod yn amser priodol i dalu neu apelio yn erbyn hysbysiad terfynol, fel y nodir ym mharagraff 25 uchod? Mae'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau yn nodi mai 28 diwrnod yw'r cyfnod hiraf y gellir ei ganiatáu, felly rhaid i unrhyw awgrymiadau amgen fod yn llai na 28 diwrnod.

Sector	Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	6	0	2	0	8
Y Cyhoedd	7	17	8	0	32
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	4	1	0	0	5
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	11	0	2	0	13
Arall / Dienw	0	5	1	0	6

	Ydy	Nac ydy
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	28	23
Canran gyffredinol	44%	36%

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod 28 diwrnod yn amser priodol i dalu hysbysiad terfynol neu apelio yn ei erbyn. Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, cadarnhaodd yr ymatebwyr fod hyn yn cyd-fynd â rheoliadau bwyd sy'n bodoli eisoes.

Awgrymwyd y dylid rhoi system atgoffa ar waith i roi gwybod i fusnesau bod y dyddiad yn nesáu, ynghyd â chyflwyno canllawiau clir ar y broses apelio a'r rhesymau dilys dros apelio. Pwysleisiodd ymatebydd arall fod angen rhoi cymorth i fusnesau llai yn ystod y cyfnod hwn.

'Nac ydy' oedd ateb rhywfaint dros hanner y cyhoedd i'r cwestiwn hwn. Aeth yr ymatebwyr hyn yn eu blaen i ddweud eu bod yn anghytuno â'r cyfyngiadau a'r dull gorfodi, gan bwysleisio y dylai pobl fod â'r rhyddid i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Cwestiwn 10: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Ni ddylid cael dirwyon o gwbl.

Gan fod hyn yn annilys ac yn anghyfansoddiadol, nid ddylid pennu na thalu cosbau o gwbl.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dull Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021.

Mae'r gymdeithas fasnach yn cefnogi'r cynnig y dylid rhoi 28 diwrnod i fusnesau dalu hysbysiad terfynol neu apelio yn ei erbyn. Dylai hyn roi digon o amser i fusnesau baratoi apêl neu gasglu adnoddau i dalu'r hysbysiad.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Rydym yn cytuno bod hyn yn rhoi digon o amser i fusnesau, o gofio y ceir tri chyfle ar wahân i apelio neu wrthwynebu, felly ymddengys fod 28 diwrnod yn rhesymol. Dymuna'r Bwrdd Iechyd ailddatgan y dylid rhoi cymorth i fusnesau llai yn ystod y cyfnod hwn.

Mae 28 diwrnod yn rhoi digon o amser i fusnesau dalu hysbysiad terfynol neu apelio yn ei erbyn. Mae'r cyfnod hwn yn rhoi digon o amser i fusnesau asesu'r sefyllfa, ceisio cyngor cyfreithiol pe bai angen, a thalu'r hysbysiad neu baratoi apêl. O gofio mai 28 diwrnod yw'r cyfnod hwyaf y gellir ei ganiatáu yn ôl y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau, mae'n taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu rhoi ar waith ar y naill law a bod busnesau'n cael cyfle teg i ymateb ar y llaw arall. Awgrymir y dylid rhoi system atgoffa ar waith i roi gwybod i fusnesau bod y dyddiad yn nesáu ynghyd â darparu canllawiau clir ar y broses apelio a'r rhesymau dilys dros apelio.

Sefydliadau Iechyd, elusennau ac academyddion

Ystyrir bod yr arfer hwn yn arfer safonol.

Ymddengys fod yr amser hwn yn briodol; dyma'r cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer tramgwyddau deddfwriaethol eraill. Pe bai'r amser yn llai na 28 diwrnod, yn realistig a fyddai prosesau ar waith gan fusnesau i allu talu'r cosbau cyn y dyddiad?

Cwestiwn 11

A ddylai methu â thalu neu apelio yn erbyn cosb o fewn 28 diwrnod arwain at gynnydd o 50% yn y gosb, fel y nodir ym mharagraff 25 uchod?

Sector	Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	4	0	3	0	7
Y Cyhoedd	7	19	5	0	31
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	1	1	0	4
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	7	1	4	0	12
Arall / Dienw	0	6	0	0	6

	Dylai	Na ddylai
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	20	27
Canran gyffredinol	33%	45%

Fel yn achos cwestiynau blaenorol, aelodau o'r cyhoedd a fynegodd y mwyafrif o'r pryderon ynglŷn â'r dull hwn gan eu bod o'r farn y gallai gael effaith niweidiol ar fusnesau llai. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y dull yn ffordd i Lywodraeth Cymru wneud arian.

Sylwadau cyfyngedig a gafwyd gan fusnesau; ond yn achos y rhai a ymatebodd, roeddynt yn cefnogi'r dull a'r ffaith ei fod yn cyd-fynd â rheoliadau bwyd eraill. Mynegwyd pwyntiau tebyg gan sefydliadau iechyd/elusennau ac academyddion. Ond yn ôl un ymatebydd o blith yr is-grŵp hwn, efallai na fyddai'n briodol cynyddu'r gosb o gofio ein bod yng nghanol argyfwng costau byw. Hefyd, dywedodd ymatebydd arall fod angen asesu amgylchiadau lliniaru posibl fesul achos.

Ar y cyfan, roedd llywodraeth leol yn fodlon â'r agwedd hon ar y dull gorfodi arfaethedig a dywedwyd y byddai'n atal busnesau rhag anwybyddu cosbau. Yn ôl un bwrdd iechyd, rhaid i fusnesau gael rhybudd clir ynglŷn â'r cynnydd posibl yn y gosb a dylid ystyried cyfnod gras mewn amgylchiadau eithriadol. Awgrymodd bwrdd iechyd arall y gellid defnyddio canran is am fethu â chydymffurfio y tro cyntaf, hyd nes y bydd y rheoliadau wedi ennill eu plwyf.

Cwestiwn 11: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Gallai hyn andwyo cwmnïau llai.

Ffordd o wneud arian.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dull Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021.

Credwn fod y dull hwn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer rheoliadau bwyd eraill.

Mae'r gymdeithas fasnach yn cefnogi'r agwedd hon ar y rheoliadau oherwydd bydd yn helpu i atal busnesau rhag methu â chydymffurfio â chymau gorfodi a bydd yn cymhell proses orfodi gyflymach.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Os yw'r busnes eisoes wedi cael cymorth a chyfle i wella, gellir cyfiawnhau'r syniad o gynyddu'r gosb os bydd y busnes yn dal i beidio â thalu.

Mae ychwanegu 50% at y gosb yn fesur rhesymol os na fydd busnesau'n talu neu'n cyflwyno apel o fewn 28 diwrnod. Bydd y cynnydd hwn yn annog busnesau i gydymffurfio mewn da bryd neu i gymryd rhan yn y broses apelio, a bydd yn ffordd o atal busnesau rhag anwybyddu cosbau. Trwy gynyddu'r gosb, gellir sicrhau y bydd busnesau'n wynebu canlyniadau am beidio â gweithredu – rhywbeth a fydd yn helpu i gynnal system orfodi effeithiol. Awgrymir y dylid rhoi rhybudd i fusnesau ynglŷn â'r cynnydd yn y gosb ac y dylid ystyried cyfnod gras mewn amgylchiadau eithriadol.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Mae'n bwysig sicrhau na cheir unrhyw amgylchiadau lliniarol dilys.

Ystyrir bod yr arfer hwn yn arfer safonol.

Cwestiwn 12

A oes unrhyw feysydd y mae angen eu nodi mewn canllawiau i ganiatáu i fusnesau weithredu'r polisi yn llwyddiannus?

Sector	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	9	0	1	1	11
Y Cyhoedd	7	12	11	0	30
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	4	1	1	0	6
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	7	2	5	1	15
Arall / Dienw	3	1	0	0	4

	Oes	Nac oes
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	30	16
Canran gyffredinol	45%	25%

Roedd yna gonsensws ymhlith yr ymatebwyr bod angen canllawiau clir a chryno sy'n nodi'n glir sut fath o gynhyrchion a busnesau a ddaw o fewn cwrpas y rheoliadau. Er nad oes modd cyfleu'r holl awgrymiadau, gwelir bod y mwyafrif ohonynt yn perthyn i'r themâu canlynol:

Sicrhau cysondeb â chanllawiau Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021

Dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r canllawiau gyd-fynd â chanllawiau cyfatebol Llywodraeth y DU. Yn ôl sawl ymateb gan gyrrff masnach, byddai'n ddefnyddiol efelychu'r canllawiau a ddatblygwyd gan Gonsortiw Manwerthu Prydain (a gyflwynwyd pan roddwyd y rheoliadau ar waith yn Lloegr), neu greu cysylltiad â'r canllawiau hynny.

Defnyddio enghreifftiau

Gofynnodd yr ymatebwyr am gael enghreifftiau/diagramau er mwyn dangos agweddau hollbwysig ar y rheoliadau – yn enwedig o ran cyfyngiadau lleoli. Hefyd, gofynnodd yr ymatebwyr am gael enghreifftiau o gynhyrchion sydd oddi mewn/oddi allan i bob categori yng nghwrpas y Rheoliadau.

Diffiniadau clir

Gofynnodd yr ymatebwyr am gael diffiniadau clir yn y canllawiau. Er enghraifft, pa fusnesau sydd o fewn cwrpas y rheoliadau.

Cymharu'r rheoliadau â rheoliadau hysbysebu Llywodraeth y DU

Gofynnodd nifer o gyrff masnach a fyddai modd i'r canllawiau nodi'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng rheoliadau arfaethedig Llywodraeth Cymru a rheoliadau hysbysebu'r DU y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Hydref 2025.

Cymorth i gyfrifo sgoriau'r Model Proffilio Maethynnau

Gofynnodd busnesau a chymdeithasau masnach a fyddai modd i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i greu cronfa data neu system gyfrifo genedlaethol i gynorthwyo busnesau i gynhyrchu sgoriau'r Model Proffilio Maethynnau ar gyfer eu cynhyrchion.

Ar y cyfan, nid oedd yr ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd i'r cwestiwn hwn yn nodi awgrymiadau penodol y dylid eu cynnwys yn y canllawiau, ond ailddatganodd yr ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r rheoliadau arfaethedig.

Cwestiwn 12: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau, felly ni ddylid cyflwyno unrhyw gosbau.

Ni ddylid cael un o gwbl.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Dylai'r canllawiau nodi'n glir pa gynhyrchion sydd o fewn cwmpas y rheoliadau er mwyn helpu busnesau i roi pethau ar waith yn gywir.

Byddai adran Cwestiynau Cyffredin yn adnodd cyfeirio defnyddiol i fanwerthwyr ar gyfer cwestiynau arbennig nad ymdrinnir â nhw yn y canllawiau cyffredinol.

Canllawiau ar y modd mae cyfyngiadau hyrwyddo ar-lein yn rhyngweithio â chyfyngiadau hysbysebu (gweithio gyda CAP neu ASA).

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Byddai'n ddefnyddiol i fusnesau bwyd gael canllawiau clir, yn cynnwys enghreifftiau ymarferol a gweledol o'r modd y dylent gydymffurfio â'r rheoliadau.

Dylid cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gael gafael ar wybodaeth a dylid cynnig sesiynau hyfforddi i fanwerthwyr er mwyn iddynt allu deall y gofynion yn well.

Sefydliadau iechyd / elusennau ac academyddion

Mae'n bwysig i'r canllawiau esbonio i fusnesau beth yn union mae'r rheoliadau'n ei olygu iddyn nhw, mewn ffordd glir a defnyddiol. Dylai'r canllawiau gynnwys esboniad clir o'r modd y gellir cydymffurfio â'r rheoliadau.

Bydd busnesau ac awdurdodau lleol angen cymorth / canllawiau diweddar ynglŷn â gweithredu'r model proffilio maethynnau. Gallai hyn fod braidd yn llafurus wrth ystyried cynhyrchion unigol ac ailfformiwleiddio.

Cwestiwn 13

A oes unrhyw feysydd y mae angen eu pennu mewn canllawiau i ganiatáu i asiantaethau gorfodi weithredu'r polisi yn llwyddiannus?

Sector	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	4	0	3	0	6
Y Cyhoedd	8	11	9	0	28
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2	2	1	0	5
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	7	2	4	0	13
Arall / Dienw	2	1	1	0	4

	Oes	Nac oes
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	23	16
Canran gyffredinol	41%	28%

Fel yn achos cwestiynau blaenorol, dywedodd rhai aelodau o'r cyhoedd eu bod yn anghytuno â natur y Rheoliadau wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Ar y cyfan, roedd yr holl is-fathau eraill o ymatebwyr yn cytuno bod angen i gyrff gorfodi gael canllawiau clir er mwyn sicrhau y rhoddir dull gorfodi cyson ar waith ledled Cymru. Yn arbennig, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y meysydd canlynol y gall fod angen canllawiau ychwanegol ar eu cyfer:

Cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y rheoliadau

Yn ôl nifer o ymatebwyr ar draws yr is-fathau, bydd swyddogion gorfodi angen canllawiau i'w cynorthwyo i benderfynu pa gynhyrchion sydd o fewn cwmpas y rheoliadau. Er enghraifft, gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai modd i'r canllawiau gynnwys dull cyfrifo o ryw fath y gall swyddogion gorfodi ei ddefnyddio i gadarnhau sgôr Model Proffilio Maethynnau cynhyrchion. Roedd un ymatebydd o'r farn y bydd hyn yn bwysig iawn yn ystod camau cynnar y rheoliadau, pan fydd swyddogion gorfodi'n llai cyfarwydd efallai â'r Rheoliadau a'r Model Proffilio Maethynnau.

Gwybodaeth gan fanwerthwyr

Yn ôl un gymdeithas fasnach, dylai'r canllawiau awgrymu bod manwerthwyr yn cadw cofnod o gynllun eu cynhyrchion er mwyn cynorthwyo swyddogion gorfodi i asesu a ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau yn ystod archwiliadau. Adleisiwyd yr awgrym hwn gan ddau ymateb arall, yn cynnwys ymateb gan gorff gorfodi, a ddywedodd pa mor bwysig yw hi i swyddogion gorfodi gael mynediad at wybodaeth am nifer y gweithwyr ac arwynebedd lloeriau perthnasol ar gyfer pob manwerthwr.

Ochr yn ochr â'r awgrymiadau uchod, gofynnodd cyrff gorfodi am gael canllawiau ar y canlynol:

- Penderfynu beth yn union yw 'ynys'
- Drafftio Hysbysiadau Gwella
- Arferion gorau ar gyfer cyhoeddi canllawiau ar Gosbau Ariannol Penodedig

Diffiniadau ac enghreifftiau

Er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd y caiff y Rheoliadau eu gorfodi, gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai modd i'r canllawiau gynnwys enghreifftiau a diffiniadau ar gyfer pob opsiwn gorfodi sydd ar gael i swyddogion gorfodi.

Cwestiwn 13: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Mae'r cynnydd ar gynghorau lleol i orfodi hyn yn anghymesur.

Ni ddylid cael unrhyw gyfyngiadau, felly ni ddylid cyflwyno unrhyw gosbau. Dylai pobl fod â'r hawl i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Er mwyn i adrannau Safonau Masnach allu gwneud eu gwaith yn effeithiol, rhaid cael ffordd glir i fanwerthwyr gyflwyno tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio mewn modd sy'n golygu y gall adrannau Safonau Masnach gadarnhau'r wybodaeth yn rhwydd mewn perthynas â phellteroedd gwaharddedig ac arddangosfeydd perthnasol. Fel y nodir yng nghwestiwn 12, byddai awgrymu yn y canllawiau y dylai manwerthwyr gadw cofnod o gynllun eu cynhyrchion ar gyfer ymweliadau gorfodi yn ffordd ddefnyddiol o helpu busnesau i ddangos eu bod yn cydymffurfio a helpu adrannau Safonau Masnach i gadarnhau gwybodaeth.

Dylid datblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau gorfodi er mwyn eu helpu i benderfynu a yw cynhyrchion o fewn cwmpas y rheoliadau. Mae cynhyrchion wedi cael eu hailfformiwleiddio i raddau helaeth er mwyn eu gwneud yn iachach, felly mae categorïau neu frandïau a fyddai, yn draddodiadol, wedi cael eu hystyried yn gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, bellach â sgôr Model Proffilio Maethynnau is. Mae Coco-Pops (sef cynnyrch sydd wedi cael ei ailfformiwleiddio i fod â sgôr Model Proffilio Maethynnau is) yn enghraifft o hyn, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae angen i 'ystod' o opsiynau gorfodi fod yn gliriach ac yn fwy cyfarwyddiadol i Awdurdodau Lleol – fel arall, bydd gwahanol ardaloedd yn rhoi gwahanol ddulliau ar waith a cheir gwahaniaethau yn y modd yr ymdrinnir â chamau gorfodi.

Sefydliadau Iechyd / elusennau ac academyddion

Dylid ei gwneud yn ofynnol i fusnesau roi maint eu siopau a nifer eu gweithwyr i swyddogion gorfodi lleol, bob blwyddyn fan leiaf. Bydd hyn yn hwyluso'r broses orfodi – rhywbeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a thegwch i bawb.

Awgrymodd adrannau safonau masnach a swyddogion iechyd yr amgylchedd a gymerodd ran yn ein harolwg y byddent yn croesawu rhagor o gyfleoedd hyfforddi, ynghyd â mynediad at ragor o adnoddau i'w helpu i bennu bwydydd a diodydd sydd o fewn cwmpas y rheoliadau.

Cwestiwn 14

O fewn eich maes diddordeb penodol chi, pa heriau (os oes rhai o gwbl) yn sgil y Rheoliadau arfaethedig, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

Sector	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	5
Y Cyhoedd	22
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	4
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	8
Arall / Dienw	4

Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a oedd yn gofyn am awgrymiadau ynglŷn â diwygiadau neu ychwanegiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Gwelir bod nifer fawr o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ynghylch yr asesiadau effaith drafft ychwanegol a gyhoeddwyd. Er enghraifft, yr Asesiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler y dyfyniadau ar gyfer cwestiwn 14 i weld y sylwadau ehangach a dderbyniwyd. Fodd bynnag, mae'r crynodeb naratif hwn yn canolbwyntio ar sylwadau penodol yn ymwneud â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cynhwysir sylwadau ynghylch asesiadau effaith eraill yn y crynodeb naratif ar gyfer cwestiwn 16.

Er nad oes modd cyfleu'r holl sylwadau, isod ceir crynodeb o'r sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y dylai gymryd 15 munud i swyddogion gorfodi asesu cydymffurfiaeth. Mae'r amser ar gyfer cynnal yr asesiad hwn wedi cael ei amcangyfrif yn rhy isel.
- Nid yw'n glir sut cafodd costau gweinyddol swyddogion eu cyfrifo oherwydd gwybodaeth gyfyngedig a geir ynglŷn â safleoedd y gallai gofynion hyrwyddo prisiau/lleoli cynnyrch effeithio arnynt.
- Mae'r costau ar gyfer busnesau wedi cael eu hamcangyfrif yn rhy isel. Er enghraifft, costau'n ymwneud ag ailosod siopau, hyfforddi staff a gweithredu systemau newydd.
- Mae'r Asesiad Effaith yn tynnu sylw at anawsterau o ran amcangyfrif costau ailfformiwleiddio gweithgynhyrchwyr unigol a nodir y gallai'r costau amrywio'n fawr. Fodd bynnag, ni ddylid amcangyfrif y costau hyn yn rhy isel – er enghraifft, costau cydymffurfio yn ystod y cyfnod pontio a chostau ailfformiwleiddio.

Cyflwynodd sawl aelod o'r cyhoedd sylwadau mwy cyffredinol ynglŷn ag effaith y rheoliadau ar yr economi ac ar gostau byw.

Cwestiwn 14: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Yr effaith ar ddinasyddion yn prynu bwyd o fewn eu modd, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn digwydd ar amser anghywir i bobl Cymru a bydd yn cael effaith negyddol ar aelwydydd.

Gwastraff amser ac arian. Dylai pobl eu hunain allu dewis sut dymunant fwyta bwyd.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Mae'r Asesiad Effaith yn tynnu sylw at anawsterau o ran amcangyfrif costau ailfformiwleiddio gweithgynhyrchwyr unigol a nodir y gallai'r costau amrywio'n fawr. Ni ddylid amcangyfrif y costau hyn yn rhy isel.

Amcangyfrifir y bydd y costau i fusnesau yn £290k. Mae'r rhestr fras o gostau sy'n wynebu busnesau'n cwmpasu nifer o feysydd, ac yn sicr bydd costau'n siŵr o ddod i ran manwerthwyr. Fodd bynnag, mae costau'r gweithgareddau hyn wedi cael eu hamcangyfrif yn rhy isel o lawer.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Bydd pobl sy'n prynu cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen mewn modd cymedrol yn wynebu anfantaes annheg. O'r herwydd, dylid lleihau prisiau eitemau iach er mwyn adlewyrchu'r newid hwn, fel na fydd cyllidebau bwyd yn codi'n gyffredinol i aelwydydd.

Mae'r Asesiad Effaith yn nodi y dylai gymryd 15 munud i swyddogion gorfodi asesu cydymffurfiaeth a chynnal gwiriadau dogfennol. Ni chredir bod hyn yn ymarferol, yn enwedig os bydd angen cyfrifo arwynebedd lloriau neu bellter oddi wrth fynedfeydd/eiliau a phennu sgoriau proffilio maethynnau.

Sefydliadau Iechyd / elusennau ac academyddion

Rydym yn bryderus ynghylch y ffaith nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r canlyniadau negyddol posibl a gaiff y newidiadau polisi arfaethedig ar bob grŵp, yn enwedig aelwydydd incwm isel. Er ein bod yn cydnabod effaith gadarnhaol bosibl y polisi ar aelwydydd incwm isel trwy gynorthwyo pobl i wneud dewisiadau bwyd cadarnhaol, rydym o'r farn nad yw'r asesiad yn rhoi digon o sylw i'r effaith negyddol bosibl yn sgil prisiau bwyd uwch.

Rydym yn derbyn nad yw costau ailfformiwleiddio wedi cael eu cyfleu oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn y mathau o gynhyrchion, ond mae angen eu cydnabod.

Cwestiwn 15

O fewn eich maes diddordeb penodol chi, pa effeithiau cadarnhaol (os oes rhai o gwbl) yn sgil y Rheoliadau arfaethedig, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

Sector	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	2
Y Cyhoedd	19
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	3
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	7
Arall / Dienw	2

Yn achos y mwyafrif o'r ymatebion a gyflwynwyd gan y cyhoedd, ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol a fyddai'n deillio o'r Rheoliadau ac ailddatganodd yr ymatebwyr eu barn na ddylid rhoi unrhyw gyfyngiadau ar waith. Cyfeiriodd rhai ymatebion yn benodol at yr aseuadau effaith ychwanegol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Nodir y sylwadau hyn yn y crynodeb naratif ar gyfer cwestiwn 16.

Mewn amryfal ymatebion, yn enwedig gan weithwyr iechyd proffesiynol, gofynnwyd a fyddai modd i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft gydnabod ymhellach yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Yn benodol, yr effeithiau ar lefelau gordewdra, clefydau sy'n gysylltiedig â deiet ac iechyd deintyddol – sef elfennau sy'n rhoi straen sylweddol ar y GIG ar hyn o bryd. Gofynnodd dau sefydliad a fyddai modd i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ystyried mwy ar y canlyniadau negyddol posibl a allai ddeillio o gynyddu costau bwyd.

Cwestiwn 15: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Dim effeithiau cadarnhaol, dim ond ffordd arall o wneud pethau'n anos i deuluoedd, a'i gwneud hi'n anos fyth inni gael unrhyw ddanteithion yng Nghymru.

Does yna ddim effeithiau cadarnhaol.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Dylid pennu'r effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, er mwyn cyfiawnhau cyflwyno'r darpariaethau hyn. Deallwn fod y ffigur dan sylw yn £183 miliwn. Byddai'n syniad da inni gael gwell syniad sut yn union y cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo gan y Llywodraeth.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Caiff yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd eu cyfleu yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau nifer yr achosion o ordewdra ynghyd â lleihau gordewdra sy'n gysylltiedig ag afiachedd a marwolaethau cynamserol. Mae deiet nad yw'n iach yn un o'r prif risgiau ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy fel clefydau cardiofasgwlaidd, diabetes a chanser.

Canlyniadau Iechyd Gwell – mae'r rheoliadau'n debygol o gyfrannu at leihau faint o gynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen a gaiff eu bwyta – rhywbeth a all arwain at ostwng cyfraddau gordewdra, yn enwedig ymhlith plant. Gall hyn esgor ar fanteision hirdymor yn iechyd y cyhoedd, yn cynnwys lleihau anhwylderau sy'n gysylltiedig â gordewdra fel diabetes math 2, clefyd y galon a rhai mathau o ganser.

Sefydliadau Iechyd / elusennau ac academyddion

Yn ychwanegol at afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gordewdra, dylid ystyried yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd y geg yn sgil cyflwyno'r rheoliadau arfaethedig. Mae pydredd dannedd yn un o'r prif achosion dros dderbyn pobl ifanc i'r ysbyty yng Nghymru, ac mae bwyta llawer iawn o siwgr yn ffactor risg allweddol.

Cyfle i annog manwerthwyr i ddarparu cynigion 'prynu un a chael un am ddim' (BOGOF) ar gyfer bwydydd iachach / lleoli bwydydd iachach ym mhen draw eiliau ac ati, er mwyn sicrhau bod dewisiadau maethlon amgen yn disodli eitemau â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen.

Cwestiwn 16

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y casgliadau sy'n dod i'r amlwg yn yr asesiadau effaith drafft ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Os felly, i gefnogi'ch sylwadau, pa dystiolaeth ydych chi'n teimlo y dylid ei hystyried ymhellach o fewn eich maes diddordeb chi'n benodol? Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn pennu nodweddion gwarchoddedig sy'n cynnwys oedran; crefydd neu gred; hil; cyfeiriadedd rhywiol; rhyw; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; ac anabled.

Sector	Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	0	0	3	0	3
Y Cyhoedd	4	10	4	2	20
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	1	1	0	0	2
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	1	5	2	2	10
Arall / Dienw	0	1	1	1	3

	Oes	Nac oes
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	6	17
Canran gyffredinol	16%	45%

Cafodd rhai sylwadau ynglŷn â'r asesiadau effaith drafft (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad) eu cyflwyno mewn ymateb i gwestiynau 14 ac 15 ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er hwylustod, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi cael eu cynnwys yn y crynodeb naratif hwn.

Yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gofyn a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ystyried mwy ar yr effaith a gaiff y Rheoliadau drafft ar aelwydydd incwm isel. Er bod yr ymatebwyr yn cydnabod y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm isel trwy eu cynorthwyo i wneud dewisiadau bwyd iachach, roeddynt hefyd o'r farn y gallai'r cynigion godi prisiau bwyd i bobl sydd eisoes yn cael anawsterau ariannol. Nid oedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr effeithiau hyn wedi cael eu cydnabod na'u harchwilio'n ddigonol yn yr asesiad drafft.

Hefyd, gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ystyried hygyrchedd corfforol bwydydd i blant a phobl ag anableddau, mewn safleoedd manwerthu ffisegol a hefyd ar-lein.

Yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau'n ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Drachefn, roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r asesiad ystyried mwy ar effeithiau negyddol posibl y cynigion ar blant mewn teuluoedd incwm isel. Dyma feysydd eraill y dylid eu hystyried ymhellach, ym marn yr ymatebwyr:

- Yr effaith a gaiff strategaethau marchnata bwydydd llai iach ar blant, yn enwedig effeithiau ar blant mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is.
- Y manteision seicolegol ac addysgol hirdymor posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu arferion bwyta iachach yn ystod plentyndod, yn cynnwys cysylltiadau â pherfformiad academaidd ac iechyd meddwl.
- Effaith y cynigion a negeseuon 'iechyd y cyhoedd' ar blant ag anhwylderau bwyta, a allai gredu bod bwydydd 'da' a bwydydd 'drwg' i'w cael.

Yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cafwyd nifer fechan o sylwadau'n ymwneud â'r asesiad drafft o'r effaith ar y Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r asesiad effaith archwilio mwy ar y potensial i hyrwyddo'r Gymraeg. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai dulliau dwyieithog o hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach ddylanwadu'n gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Cwestiwn 16: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Dydy hyn ddim yn rhan o rôl Llywodraeth Cymru, ac mae'r ffaith eich bod yn rhagnodi hyd at y lefel hon o unbennaeth yn chwalo hawliau dynol poblogaethau cyfan.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Ni chyflwynwyd sylwadau.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Y Gymraeg – Mae'r asesiad effaith yn awgrymu mai effaith fach iawn a gaiff y rheoliadau ar y Gymraeg, gan y bydd y deunyddiau a'r negeseuon yn ddwyieithog. Fodd bynnag, gellid archwilio mwy ar y potensial i hyrwyddo'r Gymraeg. Ystyriwch gasglu tystiolaeth ynglŷn â'r modd y gallai dulliau dwyieithog o hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach ddylanwadu'n gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae UNICEF yn tynnu sylw at y niwed a achosir trwy farchnata bwydydd a diodydd nad ydynt yn iach ac mae'n cynnig argymhellion i randdeiliaid ynglŷn â'r ffordd orau o ddiogelu hawliau plant yng nghyd-destun marchnata bwyd. Mae'r adroddiad yn nodi'r effeithiau uniongyrchol a gaiff marchnata bwydydd iach ymhlith plant ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod plant yn tueddu i ddod i gysylltiad â deunyddiau marchnata o'r fath i raddau mwy nag oedolion a bod plant mewn grwpiau â statws economaidd-gymdeithasol is yn tueddu i ddod i gysylltiad â marchnata ar raddfa fwy.

Sefydliadau iechyd / elusennau ac academyddion

Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol yn ein maes diddordeb ni.

Aelwydydd incwm is – bydd angen i'r polisi weithio ar y cyd ag addysg deiet iach. Os rhoddir y gorau i hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen (sef cynhyrchion a gaiff eu bwyta fel arfer gan y grŵp hwn), heb ategu hyn gyda ffyrdd o weithredu newidiadau deietegol, gellid arwain at orwario/problemau iechyd yn y dyfodol yn sgil amddifadedd.

Mae gan blant yr hawl i gael prydau rheolaidd a pheidio â theimlo'n newynog. Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fod wedi archwilio a allai'r cynigion effeithio'n negyddol ar yr hawliau hyn ac arwain at ychwaneg o blant newynog, o gofio y gallai prisiau nifer o brif fwydydd godi.

Cwestiwn 17

a. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Rheoliadau ar y Gymraeg? Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

b. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

c. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sector	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	1
Y Cyhoedd	18
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	2
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	7
Arall / Dienw	5

Ym marn rhai o'r ymatebwyr, go brin y byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Yn achos y rhai a oedd yn credu y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg, roeddynt o'r farn ei bod yn bwysig inni ystyried y Rheoliadau fel cyfle i hyrwyddo, amlygu a defnyddio mwy ar y Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio negeseuon dwyieithog i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gofynnodd ymatebydd arall a fyddai modd i swyddogion gorfodi a Llywodraeth Cymru anfon gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a gofynnodd hefyd a fyddai modd i fusnesau allu cyfathrebu gyda chyrrff gorfodi trwy gyfrwng y Gymraeg, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Yn yr ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd, ni chyflwynwyd sylwadau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag effaith y cynigion ar y Gymraeg. Yn hytrach, ailddatganodd yr ymatebwyr eu bod yn gwrthwynebu'r cynigion.

Cwestiwn 17: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Na, oherwydd does yna ddim effeithiau cadarnhaol.

Na, dim ond enghraifft arall o'r llywodraeth yn potsian gyda dewisiadau pobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y problemau go iawn.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Nid ydym o'r farn y bydd y Rheoliadau'n effeithio ar y Gymraeg.

Llywodraeth Leol, Byrddau Iechyd / Gorfodi

Mae yna gyfleoedd i hyrwyddo, amlygu a defnyddio mwy ar y Gymraeg – rhywbeth a allai gyfrannu at nodau ehangach yn ymwneud â chynaliadwyedd yr iaith.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Sefydliadau iechyd / elusennau ac academyddion

Mae'n bwysig cyflwyno'r wybodaeth mewn cynifer o gyfryngau â phosibl er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad ati, yn cynnwys ieithoedd, delweddu, podlediadau ac ati.

Nid ydym o'r farn y bydd hyn yn arwain at effeithiau niweidiol.

Bydd angen i bob gohebiaeth gan swyddogion gorfodi/Llywodraeth Cymru fod ar gael yn y Gymraeg, a dylai'r busnes perthnasol allu cyfathrebu yn y Gymraeg gyda'r swyddog gorfodi/Llywodraeth Cymru, os dymuna wneud hynny. Oni wneir hyn, bydd y Rheoliadau'n effeithio'n negyddol ar y Gymraeg.

Cwestiwn 18

Yn eich barn chi, a ellid ffurfio'r Rheoliadau neu eu newid er mwyn:

a. cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

b. liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sector	Gellid	Na ellid	Ddim yn gwybod	Gwag	Cyfanswm
Cymdeithasau Busnes / Masnach	0	0	0	1	1
Y Cyhoedd	0	7	1	4	12
Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi	0	0	0	1	1
Sefydliadau Iechyd / Elusennau ac Academyddion	0	2	0	2	4
Arall / Dienw	0	1	0	1	2

	Gellid	Na ellid
Cyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd	0	10
Canran gyffredinol	0%	50%

Cafwyd nifer fechan o ymatebion mewn ymateb i gwestiwn 18. Yn ôl y mwyafrif o'r ymatebwyr, nid oeddynt o'r farn y gellid ailffurfio'r rheoliadau er mwyn esgor ar effaith gadarnhaol/liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Gofynnodd dau ymatebydd a fyddai modd darparu deunyddiau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer y cynigion.

Cwestiwn 18: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Unwaith eto, dydy hyn ddim yn berthnasol. Ni fydd gwaharddiad ar fwyd yn effeithio ar y Gymraeg mewn unrhyw ffordd.

Busnesau a Chymdeithasau Masnach

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Dylid mynnu bod yr arwyddion a'r deunyddiau'n ddwyieithog. Dylid gosod safonau sylfaenol ar gyfer y Gymraeg.

Sefydliadau Iechyd / elusennau ac academyddion

Dylai'r rheoliadau nodi'n glir y bydd angen i bob gohebiaeth gan swyddogion gorfodi/Llywodraeth Cymru fod ar gael yn y Gymraeg, ac y dylai busnesau allu cyfathrebu yn y Gymraeg gyda swyddogion gorfodi/Llywodraeth Cymru, os dymunant wneud hynny.

Cwestiwn 19

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt.

Cafwyd amrywiaeth eang o sylwadau ychwanegol mewn ymateb i gwestiwn 19. Fel yn achos cwestiynau blaenorol, ni ellir cyfleu'r holl sylwadau. Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

Yr adeg y rhoddir y Rheoliadau ar waith

Yn yr ymatebion a gafwyd gan fusnesau a chymdeithasau masnach, gofynnwyd a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ailystyried yr adeg y rhoddir y Rheoliadau ar waith, er mwyn sicrhau na fyddant yn dod i rym yn ystod cyfnod y Nadolig. Yn gyffredinol, awgrymwyd y byddai mis Mawrth yn adeg resymol o'r flwyddyn i roi'r Rheoliadau mewn grym.

Mesurau ychwanegol yn ymwneud ag amgylchedd bwyd iach

Gofynnodd sefydliadau iechyd yn daer a fyddai modd ystyried camau ychwanegol yn ymwneud ag amgylchedd bwyd iach ochr yn ochr â'r Rheoliadau. Yn arbennig, gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ystyried y modd y gellir sicrhau bod opsiynau bwyd iach yn fwy fforddiadwy a hygyrch. Hefyd, gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ystyried ymestyn y cyfyngiadau er mwyn cynnwys gostyngiadau dros dro mewn prisiau, prydau bargaen a'r sector 'oddi allan i'r cartref'. Fodd bynnag, dywedodd busnesau eu bod yn gwrthwynebu'r syniad o ymestyn y cyfyngiadau.

Gwerthuso

Nododd nifer o ymatebion pa mor bwysig yw cynnal adolygiadau ar ôl rhoi'r Rheoliadau ar waith, er mwyn gwerthuso eu heffeithiolrwydd a'u heffeithiau. Mewn ymatebion a gafwyd gan fusnesau, argymhellwyd y dylid cynnal adolygiad 5 mlynedd ar ôl rhoi'r Rheoliadau ar waith, er mwyn rhoi digon o amser inni sylwi ar yr effeithiau.

Gwrthwynebu'r Rheoliadau

Cyflwynodd aelodau o'r cyhoedd ragor o fanylion i esbonio pam maent yn gwrthwynebu natur y Rheoliadau. Fel yn achos cwestiynau blaenorol, pryder hollbwysig a fynegwyd gan yr ymatebwyr oedd effaith y cynigion ar y rhyddid i ddewis.

Cwestiwn 19: Dyfyniadau o'r ymatebion

Y cyhoedd

Os ystyrir bod unigolyn yn meddu ar alluedd meddyliol, golyga hyn fod gan yr unigolyn hwnnw hawl i wneud dewisiadau annoeth. Ymddengys i mi fod y cynigion hyn yn ymyrryd â dewisiadau unigolion yng Nghymru ac rwy'n anghytuno'n chwynr â'r ddeddfwriaeth hon. Dylid canolbwyntio ar addysg yn hytrach na deddfwriaeth, er mwyn i'r boblogaeth allu cael rhagor o wybodaeth a throsglwyddo'r wybodaeth honno i genedlaethau'r dyfodol.

Yn anffodus, mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon braidd yn gul ei hagwedd o ran y gred y bydd yn lleihau gordewdra / gorfwyta. Ni fydd yn atal pobl rhag gorbrynu / gorfwyta.

Busnesau a chymdeithasau masnach

Yr adeg y rhoddir y rheoliadau ar waith – Deallwn fod y cyfnod pontio 12 mis, ar ôl rhoi'r Rheoliadau ar waith, yn debygol o ddod i ben ddiwedd 2025. Y cyfnod cyn y Nadolig yw'r adeg brysuraf o'r flwyddyn i fanwerthwyr, felly gofynnwn a oes modd ichi ystyried symud y dyddiad i ddechrau 2026. Credwn y byddai mis Mawrth yn ddyddiad rhesymol ar gyfer rhoi'r Rheoliadau ar waith.

Ar sail y ddogfen ymgynghori, deallwn y gallai Llywodraeth Cymru ystyried mesurau pellach ar gyfer cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen. Rydym yn bryderus ynglŷn â'r canlyniadau anfwriadol a allai ddod i ran defnyddwyr a chydweithwyr yn sgil y cyfyngiadau ar brydau bargaen a'r gwaharddiad ar ostyngiadau dros dro mewn prisiau. Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys cael gwared â dewisiadau amgen hygyrch a fforddiadwy yn lle bwyta allan ac anhawster i gyfleu cwmpas y cyfyngiadau i gwsmeriaid.

Llywodraeth Leol / Byrddau Iechyd / Gorfodi

Pe bai modd i safleoedd gyflwyno gwybodaeth am arwynebedd lloriau (neu ddangos ble mae modd cael gafael ar wybodaeth o'r fath, e.e. ar gofrestr yr Awdurdod Sylfaenol neu'n uniongyrchol gan y Pencadlys), byddai hynny'n cynorthwyo Swyddogion Gorfodi. O'r herwydd, byddai swyddogion yn treulio llai o amser yn cyfrifo'r manau archwilio, gan fynd ati'n syml i wirio'r wybodaeth a gyflwynwyd i weld a yw'n gywir.

Mae yna amrywiaeth eang o fusnesau a lleoliadau a fyddai'n cael eu heithrio'n rhannol neu'n gyfan gwbl o'r rheoliadau hyn (adran 16). Nid yw'r drafft yn cynnwys manylion am y lefelau eithrio. Mae modd i hyn arwain at nifer o fylchau y gallai busnesau a lleoliadau eu defnyddio i'w cynorthwyo i beidio â chydymffurfio.

Sefydliadau iechyd, elusennau ac academyddion

Yn ychwanegol at gyfyngu ar hyrwyddo bwydydd nad ydynt yn iach, dymuna'r sefydliad iechyd weld pwyslais mawr ar hyrwyddo dewisiadau bwyd iach – bwydydd heb eu prosesu (e.e. ffrwythau a llysiau) a bwydydd prosesedig iachach.

Rydym yn croesawu'r syniad o gyflwyno'r mesurau hyn fel ffordd o wella'r amgylchedd bwyd yng Nghymru ac er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl brynu bwydydd iachach. Fodd bynnag, oherwydd maint a chymhlethdod y broblem yng Nghymru, rydym yn siomedig nad yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys rheoliadau'n ymwneud â hyrwyddiadau pris dros dro a phrydau bargaen, er eu bod wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad cychwynnol ar Amgylchedd Bwyd Iach (2022).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn. Gan mai dogfen gryno yw hon, efallai nad adlewyrchir yn llwyr yr holl faterion a grybwyllwyd yn yr ymatebion, ond cafodd pob ymateb ei ystyried yn ofalus. Os na sonnir am rai materion yn y crynodeb hwn, nid yw hynny'n golygu ein bod wedi diystyru'r materion hynny.

Rydym yn croesawu'r amrywiaeth o ymatebion a gafwyd ac rydym yn falch o weld bod busnesau, llywodraeth leol a gweithwyr ieuchyd proffesiynol yn cefnogi ein cynigion yn gyffredinol. Cawsom amrywiaeth ehangach na'r disgwyl o ymatebion gan wahanol sectorau, ac o'r herwydd cyflwynwyd safbwyntiau ac awgrymiadau gwahanol iawn inni eu hystyried.

Rydym yn cydnabod y pryderon a grybwyllwyd gan y cyhoedd. Yn arbennig, pryderon yn ymwneud ag effaith y cynigion ar ryddid unigolion i ddewis. Nid cael gwared â'r rhyddid i ddewis yw bwriad ein cynigion. Rydym eisiau i bobl ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain a thros ieuchyd eu teuluoedd, ond gwyddom fod ein hamgylchedd yn effeithio ar y penderfyniadau a wnawn. Mae gormod o'r bwydydd a'r diodydd a gynhyrchir ac a hyrwyddir gan ein diwydiant bwyd yn fwydydd/diodydd nad ydynt yn iach. Bwriad ein cynigion yw annog a chynorthwyo'r diwydiant bwyd i gynhyrchu a hyrwyddo cynhyrchion iachach. Trwy wneud hynny, bydd modd cynnig dewis mwy cytbwys i gwsmeriaid.

Hefyd, rydym yn cydnabod y sylwadau niferus ynglŷn ag effaith y cynigion ar deuluoedd incwm isel a chostau bwyd yn gyffredinol. Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r effaith ar grwpiau cymdeithasol, yn cynnwys grwpiau ar incwm isel. Pan awn ati'n ddiarman ac yn 'fyrbwyll' i brynu bwydydd a hyrwyddir, mae hynny'n cynyddu faint o fwydydd a diodydd rydym yn eu prynu ac yn eu bwyta/yfed – cynnydd o oddeutu un rhan o bump. Gwyddom hefyd fod ymgyrchoedd hyrwyddo yn tueddu i gael eu defnyddio ar gyfer eitemau wedi'u brandio; a gall yr eitemau hynny, hyd yn oed pan gânt eu gwerthu'n rhatach, barhau i fod yn ddrytach na chynhyrchion cyfatebol yn y siop. Dyma faes pwysig a chymhleth i'w ystyried a byddwn yn sicrhau bod yr asesiadau effaith terfynol a ddatblygir gennym yn awr yn adlewyrchu'r sylwadau a gyflwynwyd.

Hefyd, gofynnwyd sawl gwaith yn yr ymatebion inni ymestyn cwmpas y cyfyngiadau neu gymryd camau ychwanegol i wella ein hamgylcheddau bwyd. Mae atal a lleihau gordewdra yn her gymhleth ac mae angen cymryd camau ar sawl lefel. Bwriad y ddeddfwriaeth arfaethedig gychwynnol hon yw cyflwyno pecyn cytbwys o ddulliau gwirfoddol, rheoleiddiol a chyllidol sy'n anelu at wella ein hamgylchedd bwyd a sicrhau bod bwydydd iachach yn fwy hygyrch a fforddiadwy.

Roeddem yn ddiolchgar am y sylwadau amrywiol a gafwyd ynglŷn â dull gorfodi arfaethedig y Rheoliadau. Yn arbennig, o ran defnyddio Hysbysiadau Gwella a Chosbau Ariannol Penodedig. Un awgrym cyffredin oedd y dylid cael dull gorfodi â sawl haen yn perthyn iddo – dull a gâi ei seilio ar faint y busnes neu hanes y busnes o ran diffyg cydymffurfio. Er ein bod yn deall y rhesymeg sydd wrth wraidd yr awgrym hwn, ni fyddai dull o'r fath yn cyd-fynd â'r dull a roddir ar waith ar gyfer y rheoliadau

cyfatebol yn Lloegr; gallai hyn gymhlethu'r broses gydymffurfio i fusnesau sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr.

Yn fwy penodol, gofynnodd rhai ymatebion pa mor briodol fyddai defnyddio Hysbysiadau Gwella fel y cam gorfodi ffurfiol cyntaf, er enghraifft pan fo manwerthwyr â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau. Mewn rhai achosion, mae modd i awdurdodau lleol erlyn busnesau heb gyflwyno Hysbysiad Gwella. Fodd bynnag, os na chydymffurfir â'r rheoliadau arfaethedig, ni fyddai hynny'n arwain at berygl uniongyrchol i fywydau. O'r herwydd, credwn fod hyn yn bwrw amheuaeth ar y syniad y dylid mynd ati i erlyn yn syth, hyd yn oed mewn achosion pan na fo busnesau wedi cydymffurfio'n flaenorol â'r Rheoliadau. Hefyd, cawsom nifer o ymatebion a oedd yn pwysleisio y dylai dull gorfodi'r rheoliadau arfaethedig gynorthwyo busnesau i gydymffurfio, yn hytrach na'u cosbi am beidio â chydymffurfio; drachefn, mae hyn yn bwrw amheuaeth ar y syniad y dylid newid yr agwedd hon ar y dull gorfodi arfaethedig. Fodd bynnag, ymrwymwn i adolygu ein dull gorfodi fel rhan o'n hadolygiadau cynlluniedig a gynhelir ar ôl rhoi'r rheoliadau ar waith.

Maes arall y rhoddwyd ystyriaeth iddo yw'r angen i'r Rheoliadau fynnu bod manwerthwyr yn rhoi gwybodaeth am arwynebedd lloriau i swyddogion gorfodi, neu roi gwybod iddynt ble y gallant gael gafael ar wybodaeth o'r fath. Rydym o'r farn bod y Rheoliadau drafft yn rhoi digon o bwerau i swyddogion gorfodi er mwyn eu galluogi i archwilio cofnodion busnesau bwyd o fewn cwrpas y cyfyngiadau. Fel yr awgrymwyd mewn ymateb a gafwyd gan gymdeithas fasnach, ein bwriad yw cynnwys rhagor o wybodaeth mewn canllawiau ategol i egluro i Swyddogion Gorfodi beth yn union yw 'cydymffurfio'.

Hefyd, rydym wedi ystyried sylwadau ynglŷn â'r angen i sicrhau bod y Rheoliadau'n nodi'n glir mai gweithgynhyrchwyr sy'n gyfrifol am drosglwyddo gwybodaeth er mwyn galluogi manwerthwyr i gydymffurfio â'r cyfyngiadau arfaethedig. Rydym o'r farn bod dulliau ar gael eisoes y gall manwerthwyr eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth ar gyfer cyfrifo sgoriau Model Proffilio Maethynnau cynhyrchion, er mwyn asesu a yw'r cynnyrch o fewn cwrpas y cyfyngiadau arfaethedig. Ein bwriad yw cynnwys rhagor o wybodaeth mewn canllawiau ategol ynglŷn â chyfrifo sgoriau'r Model Proffilio Maethynnau a'r dulliau y gellir eu defnyddio i gynhyrchu'r wybodaeth honno.

Yn gyffredinol, ac wrth bwysu a mesur yr awgrymiadau a gyflwynwyd, rydym o'r farn mai'r peth gorau i'w wneud yw ceisio sicrhau bod y rheoliadau'n cyd-fynd i raddau helaeth â'r rheoliadau cyfatebol cyfredol yn Lloegr.

Y Camau Nesaf

Nid ydym yn bwriadu cyflwyno newidiadau sylweddol i'r Rheoliadau drafft o ganlyniad i adborth yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, byddwn yn diwygio'r asesiadau effaith drafft yn unol ag awgrymiadau'r ymatebwyr a byddwn yn sicrhau y bydd canllawiau cynhwysfawr ar gael i fusnesau a chyrff gorfodi cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Hefyd, byddwn yn addasu'r adeg y bwriedir rhoi'r Rheoliadau mewn grym, gan gydnabod sylwadau gan fusnesau a chyrff gorfodi. Yn amodol ar gymeradwyo'r Rheoliadau gan y Senedd, ein bwriad yn awr yw rhoi'r Rheoliadau mewn grym yn ystod Gwanwyn 2026, yn dilyn cyfnod gweithredu 12 mis. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â busnesau a chyrff gorfodi i roi'r diweddaraf iddynt am ein cynnydd ac i'w cynorthwyo i weithredu'r Rheoliadau a chydymffurfio â nhw.